

Pecyn Dogfennau



Mark James LLM, DPA, DCA
Prif Weithredwr,
Chief Executive,
Neuadd y Sir, Caerfyrddin. SA31 1JP
County Hall, Carmarthen. SA31 1JP

DYDD MAWRTH, 29 MAI 2018

AT: HOLL AELODAU'R Y BWRDD GWEITHREDOL

YR WYF DRWY HYN YN EICH GALW I FYNYCHU CYFARFOD O'R Y
**BWRDD GWEITHREDOL A GYNHELIR YN SIAMBR, NEUADD Y SIR AM
9.30 AM, DYDD LLUN, 4YDD MEHEFIN, 2018 ER MWYN CYFLAWNI'R
MATERION A AMLINELLIR AR YR AGENDA SYDD YNGHLWM**

Mark James DYB

PRIF WEITHREDWR



AILGYLCHWCH OS GWELWCH YN DDA

| | |
|------------------------------|--|
| Swyddog Democrataidd: | Kevin Thomas |
| Ffôn (Ilinell uniongyrchol): | 01267 224027 |
| E-bost: | kjthomas@sirgar.gov.uk |
| Cyf: | AD016-001 |



EICH CYNGOR arleinamdani
www.sirgar.llyw.cymru
YOUR COUNCIL doitonline
www.carmarthenshire.gov.wales

Y BWRDD GWEITHREDOL AELODAETH - 10 AELOD

| Cynghorydd | Portffolio |
|--|--|
| Cynghorydd Emlyn Dole | Arweinydd Arweinyddiaeth a Strategaeth Gorfforaethol; Cadeirydd y Bwrdd Gweithredol; Cynrychioli'r Cyngor ar CLILC; Datblygu Economaidd; Yn cynrychioli'r Cyngor ar Ranbarth Dinas Bae Abertawe; Cydweithio; Marchnata a'r Cyfryngau; Penodi Aelodau o'r Bwrdd Gweithredol; Penderfynu ar bortffolios ABG; Cyswllt â'r Prif Weithredwr; Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus |
| Cynghorydd Mair Stephens | Dirprwy Arweinydd Rheolwr Busnes y Cyngor; Adnoddau Dynol; Rheoli Perfformiad; Archwilio Cymru; Hyfforddiant; T.G.Ch; T.I.C. Cynllunio strategol |
| Cynghorydd Glynog Davies | Addysg a Phlant Ysgolion; Gwasanaethau Plant; Anghenion Addysgol Arbennig; Diogelu; Cartrefi Seibiant; Gwasanaeth Gwella Ysgolion Integredig Rhanbarthol; Dysgu Oedolion yn y Gymuned; Gwasanaethau Ieuenctid; Gwasanaethau Arlwy Ysgolion, Aelod Arweiniol dros Blant a Phobl Ifanc; Llysgennad Ieuenctid |
| Cynghorydd Cefin Campbell | Cymunedau a Materion Gwledig Materion Gwledig ac Ymgysylltu â'r Gymuned; Diogelwch Cymunedol; Yr Heddlu; Deddf Gwrthderfysgaeth a Diogelwch 2015; Trechu Tlodi; Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol; Cyswllt y Trydydd Sector; Cydraddoldeb |
| Cynghorydd Hazel Evans | Amgylchedd Sbwriel; Clanhau Strydoedd; Gwasanaethau Priffyrdd aThrafnidiaeth; Cynnal a Chadw Tiroedd; Gwasanaethau Adeiladu; Gofalu; Clanhau Adeiladau; Cynlluniau Argyfwng; Llifogydd |
| Cynghorydd Linda Evans | Tai Tai - Cyhoeddus; Tai - Preifat; Heneiddio'n dda |
| Cynghorydd Peter Hughes Griffiths | Diwylliant, Chwaraeon a Thwristiaeth Llysgennad Cynghorau Tref a Chymuned; Datblygu'r Iaith Gymraeg; Theatrau; Chwaraeon; Canolfannau Hamdden; Amgueddfeydd; Llyfrgelloedd; Parciau Gwledig; Twristiaeth. |
| Cynghorydd Philip Hughes | Diogelu'r Cyhoedd Safonau Masnach; Iechyd yr Amgylchedd. Gorfodaeth Amgylcheddol; Gorfodaeth Cynllunio; Gwastraff Didrwydded; Gwasanaethau Parcio; Bio amrywiaeth |
| Cynghorydd David Jenkins | Adnoddau Cyllid a'r Gyllideb; Effeithlonrwydd Corfforaethol; Rheoli Eiddo / Asedau; Caffael; Budd-daliadau Tai; Refeniw; Gwasanaethau Statudol (Crwneriaid, Cofrestryddion, Etholiadol, Arglwydd Rhaglaw); Hyrwyddwr y Lluoedd Arfog; Canolfannau Cyswllt a Chanolfannau Gwasanaethau Cwsmeriaid |
| Cynghorydd Jane Tremlett | Gofal Cymdeithasol ac Iechyd Gwasanaethau Cymdeithasol i Oedolion; Gofal Preswyl; Gofal Cartref; Anableddau Dysgu; Iechyd Meddwl; Cyswllt / Cydweithio / Integreiddio â'r GIG; Gwasanaethau Arlwy Cartefi Gofal, Pencampwr Gofalwyr; Llysgennad Anabledd; Pencampwr Gofal Dementia |

AGENDA

1. YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB
2. DATGAN BUDDIANNAU PERSONOL.
3. CWESTIYNAU Â RHYBYDD GAN AELODAU
4. CWESTIYNAU A RHYBYDD GAN Y CYHOEDD
5. LLOFNODI FEL COFNOD CYWIR COFNODION CYFARFOD Y BWRDD GWEITHREDOL A GYNHALWYD AR Y
 - 5 .1 5ED CHWEFROR, 2018 5 - 10
 - 5 .2 30AIN EBRILL, 2018; 11 - 14
 - 5 .3 14EG MAI, 2018. 15 - 16
6. BARGEN DDINESIG BAE ABERTAW 17 - 122
7. FERSIWN DDRAFFT O STRATEGAETH GORFFORAETHOL NEWYDD 2018-23 123 - 170
8. CARTREFI CROESO CYF - GOFYNION ARIANNU, PENODI CYFARWYDDWYR A DIRPRWYO CYTUNDEB CYFRANDDALIWR 171 - 194
9. ADRODDIAD MONITRO CYLLIDEB REFENIW Y CYNGOR 195 - 220
10. DIWEDDARU RHAGLEN GYFALAF 2017-18 221 - 230
11. CYFRADDAU BUSNES – CYNLLUN RHYDDHAD ARDRETHI'R STRYD FAWR 2018/19 231 - 238
12. STRATEGAETH CAFFAEL 2018-2022 CYNGOR SIR CAERFYRDDIN 239 - 260
13. CÔD YMARFER LLWYODRAETH CYMRU – CYFLOGAETH FOESGOL MEWN CADWYNI CYFLENWI 261 - 276
14. GRANT GWISG YSGOL 277 - 282
15. Y RHAGLEN MODERNEIDDIO ADDYSG - CYNIG I GYNYDDU NIFER Y LLEOEDD YN YSGOL GYMUNEDOL GORSLAS O 110 I 210 283 - 352

| | | |
|-----|--|-----------|
| 16. | Y RHAGLEN MODERNEIDDIO ADDYSG CYNNIG I DDARPARU DARPARIAETH FEITHRIN YN YSGOL PARC Y TYWYN DRWY GYNYDDU YR YSTOD OEDRAN O 4-11 I 3-11 | 353 - 416 |
| 17. | STRATEGAETH DIGARTREFEDD | 417 - 424 |
| 18. | NEWID I'R POLISI ADNEWYDDU TAI Y SECTOR PREIFAT | 425 - 430 |
| 19. | CANLLAWIAU CYNLLUNIO ATODOL TAI FFORDDIADWY - DIWEDDARIAD CYNLLUN DATBLYGU LLEOL SIR GAERFYRDDIN | 431 - 454 |
| 20. | FERSIWN DIWYGIEDIG O GYNLLUN DATBLYGU LLEOL SIR GAERFYRDDIN 2018 - 2033 CYTUNDEB CYFLAWNI DRAFFT | 455 - 482 |
| 21. | STRATEGAETH FEICIO SIR GAERFYRDDIN | 483 - 550 |
| 22. | UNRHYW FATER ARALL Y GALL Y CADEIRYDD OHERWYDD AMGYLCHIADAU ARBENNIG BENDERFYNU EI YSTYRIED YN FATER BRYN YN UNOL AG ADRAN 100B(4)(B) O DDEDDF LLYWODRAETH LEOL, 1972. | |
| 23. | GORCHYMYN I'R CYHOEDD ADAEL Y CYFARFOD NI DDYLID CYHOEDDI'R ADRODDIADAu SY'N YMWNEUD Â'R MATERion CANLYNOL GAN EI Fod YN CYNWYS GWYBODAETH EITHRIEDIG FEL Y'I DIFFINIWYD YM MHARAGRAFF 14 O RAN 4 O ATODLEN 12A I DDEDDF LLYWODRAETH LEOL 1972 FEL Y'I DIWYGIWYD GAN ORCHYMYN LLYWODRAETH LEOL (MYNEDIAD AT WYBODAETH) (AMRYWIO) (CYMRU) 2007. OS BYDD Y BWRDD, AR ÔL CYNNAL PRAWF LLES Y CYHOEDD YN PENDERFYNU YN UNOL Â'R DDEDDF, I YSTYRIED Y MATER HYN YN BREIFAT, GORCHMYNNIR I'R CYHOEDD ADAEL Y CYFARFOD YN YSTOD TRAFODAETH O'R FATH. | |
| 24. | CANOLFAN ALWADAU RHYDAMAN/SWYDDFEYDD PARC AMANWY | 551 - 560 |
| 25. | GWERTHU TIR YN: DE-DDWYRAIN LLANELLI A CHANOL TREF LLANELLI | 561 - 580 |

DS: Mae adroddiadau yn cael eu hargraffu mewn du a gwyn yn unig er mwyn arbed costau. Fodd bynnag mae pob adroddiad ar gael ar-lein fel y gall aelodau o'r Pwyllgor / Cyngor Sir a'r cyhoedd weld lluniau/graffiau mewn lliw.

Eitem Rhif 5.1

Y BWRDD GWEITHREDOL

Dydd Llun, 5 Chwefror 2018

YN BRESENNOL: Y Cynghorydd E. Dole (Cadeirydd)

Y Cynghorwyr:

L.D. Evans, D.M. Jenkins, L.M. Stephens, J. Tremlett, P. Hughes-Griffiths, G. Davies and C.A. Campbell

Hefyd yn bresennol:

Y Cynghorwyr: J.S. Edmunds, J.D. James, R. James, K. Lloyd, J.G. Prosser, B.A.L. Roberts and B. Thomas

Yr oedd y swyddogion canlynol yn gwasanaethu yn y cyfarfod:

M. James, Prif Weithredwr
J. Morgan, Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymunedau
C. Moore, Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol
G. Morgans, Cyfarwyddwr Addysg a Phlant
R. Mullen, Cyfarwyddwr yr Amgylchedd
W. Walters, Cyfarwyddwr Adfywio a Pholisi
L.R. Jones, Pennaeth Gweinyddiaeth a'r Gyfraith
D. Hockenull, Rheolwr y y Cyfryngau a Marchnata
J. Morgan, Pennaeth Cartrefi a Chymunedau Mwy Diogel Dros Dro
K. Thomas, Swyddog Gwasanaethau Democraidd

Siambr, Neuadd y Sir - 10.00 - 10.50 am

1. YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB

Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb gan y Cynghorwyr H.A.L. Evans a P.M. Hughes.

2. DATGAN BUDDIANNAU PERSONOL.

Ni chafwyd dim datganiadau o fuddiant personol.

3. LLOFNODI FEL COFNOD CYWIR COFNODION CYFARFOD Y BWRDD GWEITHREDOL A GYNHALWYD AR Y 8FED IONAWR 2018

PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL lofnodi cofnodion cyfarfod y Bwrdd Gweithredol a gynhaliwyd ar 8^{fed} Ionawr, 2018, gan eu bod yn gywir.

4. CWESTIYNAU Â RHYBYDD GAN AELODAU

Dywedodd y Cadeirydd nad oedd dim cwestiynau â rhybudd wedi cael eu cyflwyno gan yr Aelodau.

5. CWESTIYNAU A RHYBYDD GAN Y CYHOEDD

Dywedodd y Cadeirydd nad oedd dim cwestiynau â rhybudd wedi dod i law gan y cyhoedd.

6. STRATEGAETH Y GYLLIDEB REFENIW 2018/19 - 2020/21

Bu'r Bwrdd Gweithredol yn ystyried adroddiad a oedd yn dwyn ynghyd y cynigion diweddaraf ynghylch Cyllideb Refeniw 2018/2019 ac yn darparu'r ffigurau mynegiannol ar gyfer blynyddoedd ariannol 2019/2020 a 2020/2021. Hefyd roedd yr adroddiad yn crynhoi'r sefyllfa ddiweddaraf o ran y gyllideb gan roi diweddiariad ynghylch dilysu'r gyllideb, y gwasgfydd o ran gwariant, setliad terfynol Llywodraeth Cymru, a'r ymatebion i'r ymgynghoriad ynghylch y gyllideb.

Bu i'r Aelod o'r Bwrdd Gweithredol dros Adnoddau amlinellu i'r Bwrdd nifer o ffactorau oedd yn dylanwadu ar y gyllideb, gan gynnwys y setliad terfynol a gafwyd gan Lywodraeth Cymru ar 20^{fed} Rhagfyr, 2017. Roedd y setliad yn fwy ffafriol na'r hyn a ragwelwyd yn wreiddiol, gan alluogi'r Cyngor i ailedrych ar rai o'i gynigion cychwynnol ar gyfer y gyllideb ac ystyried opsiynau pellach o ran y cynnig codiad cyflog diweddaraf. Er bod y setliad terfynol ar gyfer yr awdurdod hwn wedi cynyddu 0.2%, a oedd yn cyfateb i £1.48m yn ychwanegol i'r setliad amodol, roedd yn dal yn ostyngiad mewn cyllid mewn termau real, o ystyried chwyddiant a newidiadau eraill mewn prisiau. Hefyd roedd cyfrifoldebau ychwanegol ynghlwm wrth y setliad, gan gynnwys cynyddu'r terfynau cyfalaf ar gyfer gofal preswyl, rhyddhad ardrethi i fusnesau bach, a fyddai'n cael eu trosglwyddo i'r gwasanaethau hynny, ynghyd â £399k yn ychwanegol i atal digartrefedd. Yn ogystal er bod nifer o fylchau wedi'u trosglwyddo i'r setliad terfynol, roeddid yn disgwyl cadarnhad o hyd ar gyfran o'r rheiny a fyddai'n cefnogi cynllun y gyllideb, a hyd nes y byddai'r rheiny wedi eu cyhoeddi roedd elfen o risg yn bodoli o ran y cynllun presennol.

Cyfeiriodd yr Aelod o'r Bwrdd Gweithredol dros Adnoddau at y costau dilysu yn y strategaeth, a oedd yn dod i £8.8m, gan ddweud bod y gost fwyaf sylweddol o'u plith yn ymwneud â'r cynnig codiad cyflog o 2% i'r staff, ynghyd â'r cam i sicrhau mai'r rhai oedd ar y graddfeydd cyflog isaf fyddai'n gweld y cynnydd mwyaf yn eu cyflog. Pe byddid yn eu gweithredu, byddai hyn yn golygu y byddai'r pwynt cyflog isaf o £8.68 o Ebrill 2018 (cynnydd o 8.98%) yn cynyddu i £9.18 yn Ebrill 2019 (cynnydd pellach o 5.76%) ynghyd â chyflwyno graddfa gyflog newydd o Ebrill 2019 a fyddai'n atgyfnerthu pwyntiau presennol ar y raddfa ac yn unioni rhai o'r taliadau ar hap presennol rhwng pwyntiau cyflog. Fodd bynnag, nodwyd nad oedd y cynnig cyflog yn berthnasol i athrawon, a oedd yn destun trefniant cyflog cenedlaethol ar wahân, wedi'i bennu ar 2% o Fedi 2018.

Bu i'r Aelod o'r Bwrdd Gweithredol dros Adnoddau hefyd dynnu sylw'r Bwrdd at gynnig cyllideb tair blynedd presennol y Cyngor, a bennwyd yn Chwefror 2017, nad oedd ysgolion wedi'u diogelu ynddi o gwbl ar gyfer 2018/19. Fodd bynnag, o ystyried yr angen i gefnogi ysgolion lle bo hynny'n bosibl, ac o ganlyniad i arian ychwanegol a gafwyd gan Lywodraeth Cymru fel rhan o'r setliad, roedd wedi bod yn bosibl unwaith eto i ddiogelu ysgolion a pheidio â lleihau eu cyllidebau, gyda'r gyllideb ddirprwyedig ar gyfer 2018/19 yn cael ei chadw ar £108.7m. Yn ogystal, ac i gefnogi ysgolion ymhellach â'r gwaith sy'n cael ei wneud gan y tîm Trawsnewid i wneud Cynnydd (TIC), cynigiwyd sefydlu 'Cronfa Datblygu Ysgolion' i weithredu ar sail "buddsoddi i arbed," debyg i Gronfa Ddatblygu'r Cyngor.

Gan fod yr Awdurdod wedi elwa ar gael setliad mwy cadarnhaol na'r hyn a ragwelwyd yn wreiddiol ac yn sgil newidiadau o ran dilysu, yn ogystal ag elfen cyllid "unwaith yn unig", bu i'r Aelod o'r Bwrdd Gweithredol dros Adnoddau ddweud bod cyfle wedi codi i adolygu'r arbedion a gynigiwyd yn gychwynnol yng ngoleuni'r

ymatebion i'r ymgynghoriad ac i wneud rhai addasiadau hollbwysig i'r Strategaeth. O ganlyniad, cynigiwyd gwneud y newidiadau canlynol i rai o gynigion yr adroddiad o ran arbedion effeithlonrwydd a'r gyllideb:-

- Gwaredu'r gostyngiad arfaethedig o £50k yn y gyllideb ar gyfer y gwasanaethau Cynhwysiant;
- Ailedrych ar y cynnig ynghylch y Gwasanaethau Dydd Gofal a Chymorth gan arwain at ostyngiad yn yr arbedion effeithlonrwydd arfaethedig o £50k ar gyfer 2018/19 a £25k pellach ar gyfer 2019/20;
- Adolygu'r cynnig ar gyfer y Ganolfan Gofal Seibiant a bod yr adran yn rhoi rhagor o ystyriaeth i'r opsiynau o ran darparu gwasanaeth gan arwain at wrthdroi'r toriad o £200k yn y gyllideb yn 2018/19 a £200k yn 2019/20;
- Sefydlu Cronfa Datblygu Ysgolion o £0.5m er mwyn helpu ysgolion i ymchwilio i brosiectau buddsoddi i arbed, a thrwy hynny wella'r cyfleoedd i'r Swyddog Effeithlonrwydd Ysgolion weithio gyda'r ysgolion i nodi ffyrdd effeithiol o ddarparu'r gwasanaeth.

Wrth grynhoi, argymhellodd yr Aelod o'r Bwrdd Gweithredol fod y cynnydd yn y Dreth Gyngor ar gyfer 2018/19 yn cael ei bennu yn 4.45%, i alluogi'r Cyngor i weithredu'r strategaeth ond gan ystyried y newidiadau uchod ar yr un pryd.

PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL ARGYMELL I'R CYNGOR:-

- 6.1 bod Strategaeth y Gyllideb am 2018/17 yn cael ei chymeradwyo yn amodol ar y newidiadau a'r cynigion y manylwyd arnynt uchod;**
- 6.2 bod Treth Gyngor Band D am 2018/19 i'w gosod ar £1,196.60 (cynnydd o 4.45% ar gyfer 2018-2019);**
- 6.3 bod Cronfa Datblygu Ysgolion o £0.5m yn cael ei sefydlu gan ddefnyddio'r cyllid "unwaith yn unig" oedd ar gael yn 2018-19 a'i bod yn cael ei rhoi ar waith mewn modd tebyg i'r Gronfa Ddatblygu Gyffredinol;**
- 6.4 bod y £148k o gyllid unwaith yn unig a nodwyd ym mharagraff 3.23 a'r £77k a nodwyd ym mharagraff 7.1 o'r adroddiad yn cael ei ddefnyddio'n llawn i gefnogi'r newidiadau arfaethedig a'r cynigion a nodwyd uchod;**
- 6.5 bod y cynllun ariannol tymor canolig amodol yn cael ei gymeradwyo yn sylfaen i gynllunio ar gyfer y blynyddoedd sydd i ddod.**

7. RHAGLEN GYFALAF PUM MLYNEDD (CRONFA'R CYNGOR) - 2018/19 - 2022/23

Bu'r Bwrdd Gweithredol yn ystyried adroddiad a oedd yn dwyn ynghyd yr holl gynigion diweddaraf am Raglen Gyfalaf Bum Mlynedd (Cronfa'r Cyngor) 2018/19 hyd at 2022/2023. Roedd yr adroddiad yn cymryd i ystyriaeth yr ymgynghoriad a gynhaliwyd a'r goblygiadau refeniw oedd yn deillio o'r rhaglen gyfalaf.

Nododd y Bwrdd mai £51.531m oedd gwariant gros arfaethedig y rhaglen gyfalaf am 2018/19. Y bwriad oedd i'r Cyngor Sir gyllido £34.976m o'r rhaglen drwy ddefnyddio benthyciadau, derbyniadau cyfalaf, arian wrth gefn, a'r grant cyfalaf cyffredinol, a'r £16.735m o ffynonellau allanol. Dywedwyd wrth y Bwrdd y rhagwelid y byddai'r rhaglen gyfalaf yn cael ei chyllido'n llawn dros y 3 blynedd gyntaf o 2018/19 i 2020/21, a'r flwyddyn olaf o 2020/21. Dangosodd y bedwaredd

flwyddyn, 2021/2022, ddiffyg o £1.5m y byddid yn ei adolygu yn ystod y flwyddyn sydd i ddod.

Dywedodd yr Aelod o'r Bwrdd Gweithredol dros Adnoddau wrth y Bwrdd y byddai cyfanswm y rhaglen dreigl bum mlynedd yn gweld buddsoddiad o bron £200m (amcangyfrifwyd £143m o gyllid gan y Cyngor Sir a £55m o gyllid allanol) a bod yr Awdurdod, fel rhan o'r rhaglen honno, wedi cynnwys prosiectau newydd ychwanegol a oedd o bwys i'r sir, er enghraifft cynlluniau newydd yr Adran Cymunedau ar gyfer Parc Gwledig Pen-bre, Casgliad Amgueddfa Caerfyrddin, Parc Howard a pharhau i gefnogi Tai'r Sector Preifat yn 2022/23. Byddai Adran yr Amgylchedd yn parhau i gael cymorth ar gyfer Gwella Priffyrdd, Cynnal a Chadw Pontydd, a Chynlluniau Diogelwch Ffyrdd yn 2022/23. Yn ogystal â hynny, o ganlyniad i arian ychwanegol gan Lywodraeth Cymru, byddai'r gwariant ar adnewyddu ffyrdd ar gyfer 2018/19 £2.2m yn fwy.

PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL ARGYMELL I'R CYNGOR

- 7.1 bod y cyllid a'r Rhaglen Gyfalaf Bum Mlynedd, fel y'u nodwyd yn Atodiad B, gyda 2018/19 yn gyllideb bendant a chyllidebau 2019/20 – 2022/23 yn gyllidebau amhendiant/dangosol yn cael eu cymeradwyo;**
- 7.2 bod cyllideb 2021/22 yn cael ei hadolygu dros y flwyddyn i ddod er mwyn ymdrin â'r diffyg yn y cyllid;**
- 7.3 bod y rhaglen, yn ôl yr arfer, yn cael ei hadolygu, oni lwyddir i gael y cyllid Cyngor Sir neu allanol disgwylidig.**

8. CYFRIF CYLLIDEB REFENIW TAI 2018/19 - 2020/21 A LEFELAU RHENTI TAI 2018/19 - REFENIW A CHYFALAF

Bu'r Bwrdd Gweithredol yn ystyried adroddiad a baratowyd gan Gyfarwyddwr y Gwasanaethau Corfforaethol, ar y cyd â swyddogion o'r Adran Cymunedau, ac a nodai'r holl gynigion diweddaraf ar gyfer Cyllidebau Refeniw a Chyfalaf Cyfrif Refeniw Tai 2018/19 hyd at 2020/21. Nodwyd bod yr adroddiad wedi cael ei ystyried a'i gymeradwyo gan y Pwyllgor Craffu – Cymunedau yn ei gyfarfod ar 30 Ionawr 2018, fel rhan o'r broses ymgynghori ynghylch y gyllideb.

Dywedodd yr Aelod o'r Bwrdd Gweithredol dros Adnoddau fod yr adroddiad wedi cael ei baratoi gan adlewyrchu'r cynigion diweddaraf a oedd yn rhan o Gynllun Busnes y Cyfrif Refeniw Tai, sef y prif gyfrwng cynllunio ariannol ar gyfer darparu Safon Tai Sir Gaerfyrddin a Mwy ar gyfer y dyfodol. Nodwyd bod y buddsoddiad arfaethedig yn y cynllun busnes presennol wedi cyflawni Safon Tai Sir Gaerfyrddin erbyn 2015 (i'r cartrefi hynny lle'r oedd tenantiaid wedi cytuno i gael y gwaith), wedi darparu'r buddsoddiad i gynnal Safon Tai Sir Gaerfyrddin a Mwy, ac wedi dechrau ar y buddsoddiad ar gyfer Ymrwymiad i Dai Fforddiadwy'r Cyngor.

Dywedodd yr Aelod o'r Bwrdd Gweithredol dros Adnoddau y byddai dros £250m o gyfalaf wedi'i fuddsoddi i gyflawni Safon Tai Sir Gaerfyrddin erbyn diwedd 2017/18, a bod y cynllun busnes presennol yn bwriadu buddsoddi £30m i gynnal a gwella'r stoc dros y tair blynedd nesaf, ynghyd â £26m i gefnogi'r Rhaglen Tai Fforddiadwy

O ran pennu Rhenti Tai, atgoffwyd y Bwrdd gan yr Aelod o'r Bwrdd Gweithredol dros Adnoddau fod yr Awdurdod wedi mabwysiadu Polisi Cysoni Rhent Tai Cymdeithasol Llywodraeth Cymru o'r blaen, gyda golwg ar symud ymlaen i'r rhent targed pwynt canol. Fodd bynnag, er nad oedd y polisi hwnnw wedi newid, roedd Llywodraeth Cymru wedi dweud, oherwydd Mynegai Prisiau Defnyddiwr cymharol uchel o 3%, efallai y byddai awdurdodau lleol yn dymuno ystyried defnyddio opsiwn is ar gyfer 2018/19. O gofio'r sylw hwn gan Lywodraeth Cymru, roedd yn cael ei gynnig bod yr Awdurdod yn pennu ei rent ar y lefel isaf a ganiateir, a oedd yn golygu cynnydd o 3.5% yn ogystal â £1.62, i greu rhent cyfartalog o £85.27 gan arwain at gynnydd o 4.34% neu £3.55.

Yn dilyn ystyried argymhellion Grŵp Llywio Safon Tai Sir Gaerfyrddin

PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL GAN Y BWRDD GWEITHREDOL ARGYMELL I'R CYNGOR:-

8.1 cynyddu'r cyfartaledd rhent tai yn unol â Pholisi Rhenti Tai Cymdeithasol Llywodraeth Cymru (targed pen isaf) h.y.:-

- Bydd eiddo 'rhenti targed' yn cynyddu 3.5% (Mynegai Prisiau Defnyddwyr + 0.5%)
- Bydd eiddo lle'r oedd y rhent yn is na'r rhent targed yn cynyddu 3.5% (Mynegai Prisiau Defnyddwyr + 0.5%) ynghyd â chynnydd o £1.62
- Bydd yr eiddo a oedd yn uwch na'r rhent targed yn cael eu rhewi hyd nes iddynt ddod yn unol â'r targed

gan arwain felly at gynnydd yn y rhent ar gyfartaledd o 4.34% neu £3.55 ac at lunio Cynllun Busnes cynaliadwy, sy'n cynnal Safon Tai Sir Gaerfyrddin a Mwy ac yn darparu adnoddau i'r Rhaglen Tai Fforddiadwy;

- 8.2 Gweithredu'r cynnydd mwyaf posibl o £1.62 ar gyfer rhenti sy'n is na'r rhenti targed, hyd nes y cyrhaeddir y rhenti targed;**
- 8.3 Peidio â chynyddu rhenti garejis ar gyfer 2018/19 a'u cadw ar yr un lefel â 2017/18, gan bennu'r rhenti ar gyfer garejis yn £9.00 yr wythnos a'r seiliau garejis yn £2.25 yr wythnos;**
- 8.4 Rhoi'r polisi ynghylch taliadau am wasanaethau ar waith er mwyn sicrhau bod y tenantiaid a oedd yn cael gwasanaethau penodol yn talu am y gwasanaethau hynny;**
- 8.5 Cynyddu'r taliadau am ddefnyddio gwaith trin carthffosiaeth y Cyngor, yn unol â'r cynnydd mewn rhenti;**
- 8.6 Cymeradwyo'r Rhaglen Gyfalaf arfaethedig a'r cyllido perthnasol am 2018/19, a'r gwariant mynegiannol a bennwyd am flynyddoedd 2018/19 hyd at 2020/21, fel y'u nodwyd yn Atodiad A .**
- 8.7 Cymeradwyo Cyllideb y Cyfrif Refeniw Tai ar gyfer 2018/19 (cyllidebau dangosol yw rhai 2019/20 a 2020/21), fel y nodwyd yn Atodiad B.**

9. SAFON TAI SIR GAERFYRDDIN A MWY (STSG+) CYNLLUN BUSNES 2018-21

Bu'r Bwrdd Gweithredol yn ystyried Cynllun Busnes Safon Tai Sir Gaerfyrddin a Mwy 2018-2021, a phrif bwrpas y cynllun oedd:

- egluro gweledigaeth a manylion Safon Tai Sir Gaerfyrddin a Mwy dros y tair blynedd nesaf, a'r hyn y mae'r Safon yn ei olygu i'r tenantiaid;
- cadarnhau'r proffil ariannol, yn seiliedig ar y rhagdybiaethau presennol, ar gyfer cyflawni Safon Tai Sir Gaerfyrddin a Mwy dros y tair blynedd nesaf; a
- llunio cynllun busnes ar gyfer y cais blynyddol i Lywodraeth Cymru am y Lwfans Atgyweiriadau Mawr (MRA) ar gyfer 2018/19, sy'n cyfateb i £6.1m.

Dywedodd yr Aelod o'r Bwrdd Gweithredol dros Dai pe bai'r adroddiad a'i argymhellion yn cael eu mabwysiadu, byddai'n arwain at wario rhyw £56m dros y tair blynedd nesaf ar gynnal a chadw a gwella ymhellach Safon Tai Sir Gaerfyrddin a Mwy (£30m) a darparu'r Cynllun Tai Fforddiadwy (£26m) drwy ystod o ddatrysiadau gan gynnwys tai newydd.

PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL ARGYMELL I'R CYNGOR:-

- 9.1 bod gweledigaeth Safon Tai Sir Gaerfyrddin a Mwy a'r rhaglen o ran yr elfennau ariannol a chyflawni yn ystod y tair blynedd nesaf yn cael eu cadarnhau;**
- 9.2 cadarnhau cyflwyno'r Cynllun i Lywodraeth Cymru.**

10. POLISI RHEOLI'R TRYSORLYS A STRATEGAETH 2018-2019

Atgoffwyd y Bwrdd Gweithredol fod y Cyngor, yn unol â gofynion Côd Ymarfer diwygiedig CIPFA ynghylch Rheoli'r Trysorlys, wedi cytuno i gynnal Polisi Rheoli'r Trysorlys a oedd yn manylu ar bolisiâu ac amcanion gweithgareddau'r Awdurdod o ran Rheoli'r Trysorlys, a hefyd i gymeradwyo Strategaeth Rheoli'r Trysorlys yn flynyddol cyn dechrau'r flwyddyn ariannol yr oedd yn ymwneud â hi. Hefyd, dan ddarpariaethau Deddf Llywodraeth Leol 2003, roedd yn ofynnol i'r Cyngor gymeradwyo Dangosyddion Rheoli'r Trysorlys ar gyfer y flwyddyn i ddod.

Yn unol â'r gofynion uchod, rhoddodd y Bwrdd Gweithredol ystyriaeth i Bolisi a Strategaeth y Cyngor ynghylch Rheoli'r Trysorlys ar gyfer blwyddyn ariannol 2018/19 cyn eu rhoi gerbron y Cyngor yn ffurfiol ar gyfer eu mabwysiadu.

PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL ARGYMELL I'R CYNGOR:-

- 10.1 bod y Polisi a'r Strategaeth Rheoli'r Trysorlys ar gyfer 2018/19 a'r argymhellion a nodwyd ynddynt yn cael eu cymeradwyo,**
- 10.2 bod y Dangosyddion Rheoli'r Trysorlys, y Dangosyddion Darbodaeth, y Datganiad ynghylch y Ddarpariaeth Isafswm Refeniw a'r argymhellion yn cael eu cymeradwyo.**

CADEIRYDD

DYDDIAD

Dydd Llun, 30 Ebrill 2018

YN BRESENNOL: Y Cynghorydd E. Dole (Cadeirydd)

Y Cynghorwyr:

C.A. Campbell, G. Davies, H.A.L. Evans, L.D. Evans, P.M. Hughes, P. Hughes-Griffiths, D.M. Jenkins, L.M. Stephens a J. Tremlett

Hefyd yn bresennol:

Y Cynghorwyr: D.M. Cundy, S.L. Davies, J.S. Edmunds, J.D. James a K. Lloyd

Roedd y Swyddogion canlynol yn bresennol yn y cyfarfod:

M. James, Prif Weithredwr
J. Morgan, Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymunedau
C. Moore, Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol
G. Morgans, Cyfarwyddwr Addysg a Phlant
Mrs R. Mullen, Cyfarwyddwr yr Amgylchedd
W. Walters, Cyfarwyddwr Adfywio a Pholisi
L.R. Jones, Pennaeth Gweinyddiaeth a'r Gyfraith
D. Hockenfull, Rheolwr y y Cyfryngau a Marchnata
I.R. Llewelyn, Rheolwr Blaen-gynllunio
J. Williams, Rheolwr Cyflawni Gweithredol TGCh
M.S. Davies, Swyddog Gwasanaethau Democraidaidd

Siambr, Neuadd y Sir, Caerfyrddin - 10.00 am - 10.45 am

1. YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB

Ni chafwyd ymddiheuriadau am absenoldeb.

2. DATGAN BUDDIANNAU PERSONOL

| Y Cyngorydd | Rhif y Cofnod | Y Math o Fuddiant |
|-------------|--|--------------------------------------|
| G. Davies | 10 - Newid enw Cyngor Cymuned Tre-lech ac enw Saesneg Cyngor Cymuned Cwarter Bach; | Aelod o Gyngor Cymuned Cwarter Bach. |

3. COFNODION - 26 MAWRTH 2018

PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL Iofnodi cofnodion cyfarfod y Bwrdd Gweithredol a gynhaliwyd ar 26 Mawrth, 2018, gan eu bod yn gywir.

4. CWESTIYNAU Â RHYBYDD GAN AELODAU

Dyweddodd y Cadeirydd nad oedd dim cwestiynau â rhybudd wedi cael eu cyflwyno gan yr Aelodau.

5. CWESTIYNAU A RHYBYDD GAN Y CYHOEDD

Dyweddodd y Cadeirydd nad oedd dim cwestiynau â rhybudd wedi dod i law gan y cyhoedd.

6. STRATEGAETH DIGIDOL TECHNOLEGOL 2018-2021

Ystyriodd y Bwrdd Gweithredol Strategaeth Technoleg Ddigidol 2018-2021 arfaethedig sy'n cyflwyno blaenoriaethau a dyheadau'r Awdurdod o ran technoleg

ddigidol yn ystod y 3 blynedd nesaf. Pwrpas y strategaeth oedd nodi'r technolegau a'r mentrau allweddol a fyddai'n hwyluso ac yn ategu gweledigaeth Strategaeth Trawsnewid Digidol bresennol a chyffredinol y sefydliad a'r modd y caiff ei rhoi ar waith. Bydd yr Awdurdod yn defnyddio technolegau presennol a datblygol priodol i hwyluso ac ategu'r gwaith o drawsnewid a gwella gwasanaethau a gwneud arbedion effeithlonrwydd.

Yn unol â Rheol 11.1 o Weithdrefn y Cyngor, cyfeiriodd y Cynghorydd D. Cundy at Gynllun Adennill Cyfrifiadur (a'r Cwmwl) yn dilyn Argyfwng, a holodd pa wasanaethau fyddai'n cael eu heffeithio mewn sefyllfa "toriad trydan" parhaus, oddeutu faint o bobl fyddai dan anfantais a sut y gallai'r Awdurdod ddarparu gwasanaeth.

Sicrhaodd yr Aelod o'r Bwrdd Gweithredol - Dirprwy Arweinydd - y Cynghorydd Cundy fod gan Is-adran TGCh yr Awdurdod gynllun adennill cadarn yn dilyn argyfwng a threfnir profion yn flynyddol. Roedd gan y Canolfannau Data yn Neuadd y Sir a 3 Heol Spilman eneraduron pŵer wrth gefn ar y safleoedd a oedd yn gallu rhoi pŵer i'r ganolfan ddata os collir y cyflenwad trydan. Cafodd y prawf diwethaf ei gynnal ar 1 Medi 2017, ac roedd yn llwyddiannus. Byddai'r cyfnod y gallai gwasanaethau gael eu cynnal pe byddid yn colli cyflenwad trydan yn ymestyn y tu hwnt i 24 awr, cyhyd â bod digon o danwydd i'w ychwanegu at y generaduron, ac yn sicr dyna oedd y sefyllfa. Roedd gan y Canolfannau Data hefyd unedau cyflenwad pŵer di-dor, a fyddai'n sicrhau bod y newid o'r prif gyflenwad pŵer i'r generadur yn hwylus ac nad oedd unrhyw systemau na gwasanaethau hanfodol yn cael eu colli. Mae'r cyflenwadau pŵer di-dor yn cael eu profi am yn ail flwyddyn gan y gwasanaethau TGCh a bydd y prawf nesaf yn cael ei gynnal ar 1 Mehefin 2018. Rhoddwyd sicrwydd hefyd i'r Cynghorydd Cundy, pan oedd yr Awdurdod yn gweithio gyda'r Cwmwl, fod gan Ganolfan Data Microsoft yng Nghaerdydd gyflenwadau pŵer cydnerth, cyflenwad pŵer di-dor a generaduron a bod gan bob un ohonynt gyflenwad wrth gefn i sicrhau bod pŵer, pe byddai un yn methu. Awgrymodd y Cynghorydd Stephens ei bod yn annhebygol iawn y byddai Microsoft yn colli cyflenwad trydan oherwydd y materion yr oedd wedi cyfeirio atynt. Hefyd, wrth ddefnyddio technoleg ystywyth yn fwy, gallai staff gynnal gwasanaeth arferol ac ni fyddai unrhyw un dan anfantais yn sgil sefyllfa "toriad trydan" parhaus. Roedd yn gobeithio felly, bod y Cynghorydd Cundy wedi cael sicrwydd bod gan yr Awdurdod drefn ar bopeth.

PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL gymeradwyo cynnwys Strategaeth Technoleg Ddigidol 2018-2021.

7. STRATEGAETH DDIGIDOL AR GYFER YSGOLION 2018-2021

Bu'r Bwrdd Gweithredol yn ystyried y Strategaeth gyntaf oll ar gyfer Ysgolion yn Sir Gaerfyrddin, sy'n nodi gweledigaeth yr Awdurdod, yn seiliedig ar yr egwyddorion cyffredinol a'r meysydd o ran blaenoriaethau allweddol ar gyfer darparu Gwasanaethau TGCh i ysgolion.

Roedd defnydd yr ysgolion o dechnoleg yn hyrwyddo dysgu arloesol gan fyfyrwyr a oedd yn hyderus yn ddigidol, a ysbrydolwyd gan addysgu medrus a chreadigol. Roedd y Strategaeth Ddigidol dair blynedd hon ar gyfer Ysgolion yn nodi bwriad yr Awdurdod o ran y ddarpariaeth TGCh mewn ysgolion yn ystod y blynyddoedd nesaf, er mwyn sicrhau bod gan ysgolion y dechnoleg briodol i gyflawni'r Fframwaith Cymhwysedd Digidol.

PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL gymeradwyo cynnwys y Strategaeth Ddigidol ar gyfer Ysgolion 2018-2021.

8. POLISI AR DDEFNYDD CYFRIFIADURON I'R CYHOEDD

Ystyriodd y Bwrdd Gweithredol bolisi arfaethedig i reoli sut y mae'r Cyngor yn darparu ei gyfrifiaduron sydd â mynediad i'r rhyngwrwd i aelodau'r cyhoedd. Nododd y polisi fod yn rhaid derbyn y telerau a'r amodau a dangos prawf adnabod cyn cael caniatâd i ddefnyddio cyfrifiadur cyhoeddus. Roedd hyn er mwyn sicrhau y gellid olrhain pwy yw'r defnyddiwr pe byddai'r Heddlu yn cyflwyno cais gwrthrych am wybodaeth neu petai'r Telerau a'r Amodau yn cael eu torri.

PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL gymeradwyo'r polisi defnydd ar gyfer cyfrifiaduron mynediad cyhoeddus.

9. Y FERSIWN DRAFFT O'R CANLLAWIAU CYNLLUNIO ATODOL - YNNI GWYNT AC YNNI'R HAUL CYNLLUN DATBLYGU LLEOL SIR GAERFYRDDIN

Bu'r Bwrdd Gweithredol yn ystyried y Fersiwn Drafft o'r Canllawiau Cynllunio Atodol ynghylch Ynni Gwynt ac Ynni'r Haul, a baratowyd i gefnogi ac ymhelaethu ar bolisiau a darpariaethau Cynllun Datblygu Lleol Mabwysiedig Sir Gaerfyrddin, er mwyn caniatáu iddo fynd i ymgynghoriad cyhoeddus cyn iddo gael ei fabwysiadu'n ffurfiol, a fyddai'n adlewyrchu'r ymrwymiad a nodir yn y Cynllun Datblygu Lleol.

Soniodd yr aelodau fod angen sicrhau bod y cymunedau yn cael budd o fanteisio ar adnoddau naturiol ar gyfer ynni yn y sir, o bosibl drwy sefydlu cwmnïau hyd braich.

PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL ARGYMELL I'R CYNGOR

9.1 gymeradwyo bod y fersiwn drafft o'r Canllawiau Cynllunio Atodol a nodwyd yn yr adroddiad yn destun ymgynghori cyhoeddus ffurfiol am 6 wythnos;

9.2 cymeradwyo cyhoeddi'r Canllawiau o ran Effaith Gronnol Tyrbinau Gwynt ar Amwynder Gweledol a Thirwedd a'r Astudiaethau Sensitifrwydd a Chynhwysedd Tirwedd fel dogfennau ategol i'r Canllawiau Cynllunio Atodol a'r Cynllun Datblygu Lleol Diwygiedig sydd ar ddod;

9.3 rhoi awdurdod i'r Pennaeth Cynllunio gywiro gwallau argraffu, gwallau cartograffig neu wallau gramadegol a gwneud diwygiadau er mwyn gwella'r cywirdeb a gwneud yr ystyr yn gliriach.

10. NEWID ENW CYNGOR CYMUNED TRE-LECH AC ENW SAESNEG CYNGOR CYMUNED CWARTER BACH

(NODER: Roedd y Cyngorydd G. Davies wedi datgan buddiant yn yr eitem hon yn gynharach)

Ystyriodd y Bwrdd Gweithredol adroddiad yn manylu ar geisiadau gan glercod Cyngor Cymuned Cwarter Bach a Chyngor Cymuned Tre-lech i newid eu henwau i Gyngor Cymuned Cwarter Bach (yn y Saesneg) a Chyngor Cymuned Tre-lech a'r Betws. Os cymeradwyir newid enwau y Cyngorau Cymuned, mae angen rhoi rhybudd o'r newid hwn i Gynulliad Cenedlaethol Cymru, i Gyfarwyddwr Cyffredinol

yr Arolwg Ordnans ac i Gofrestrydd Cyffredinol Cymru a Lloegr. Mae'n rhaid hefyd cyhoeddi'r newid hwn ym mhob ardal gymunedol berthnasol. Nodwyd na fyddai newid enw'r Cyngor Cymuned yn effeithio ar hawliau neu rwymedigaethau'r Gymuned nac yn gwneud unrhyw achosion cyfreithiol y gellid dechrau neu barhau â nhw yn ddiffygiol, fel pe na bai newid enw.

PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL ARGYMELL I'R CYNGOR gymeradwyo newid enw Saesneg y Cyngor Cymuned o 'Quarter Bach' i 'Cwarter Bach' a newid enw Cyngor Cymuned Tre-lech i Gyngor Cymuned Tre-lech a'r Betws.

11. CWMAMMAN AFC

Rhoddodd y Bwrdd Gweithredol ystyriaeth i adroddiad a fanylai ar gais gan Glwb Pêl-droed Cwmaman yn gofyn am gymorth ariannol ar gyfer y diffyg o ryw £43k, o ran prosiect i uwchraddio ei faes yr amcangyfrifir y bydd yn costio £136,228. Roedd y gymuned leol yn cefnogi'r gwelliannau i'r maes a'r cyfleusterau yn debyg i aelodau lleol y cyngor, aelodau'r cynulliad a'r aelod seneddol. Cafodd y prosiect hefyd ei gefnogi gan Gymdeithas Bêl-droed Cymru a oedd wedi rhoi cyfraniad ariannol i'r Clwb gwerth £41,250.

PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL gymeradwyo rhoi hyd at £45k o gymorth ariannol i Glwb Pêl-droed Cwmaman.

CADEIRYDD

DYDDIAD

Y BWRDD GWEITHREDOL

14^{EG} O FAI 2018

YN BRESENNOL: Y Cynghorydd L.M. Stephens (Cadeirydd),

Y Cynghorwyr:

H.A.L. Evans, L.D. Evans, D.M. Jenkins, J. Tremlett, P.M. Hughes, P. Hughes-Griffiths, G. Davies a C.A. Campbell.

Yr oedd y swyddogion canlynol yn gwasanaethu yn y cyfarfod:

M. James, Prif Weithredwr;
J. Morgan, Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymunedau;
C. Moore, Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol;
R. Mullen, Cyfarwyddwr yr Amgylchedd;
G. Morgans, Cyfarwyddwr Addysg a Phlant;
W. Walters, Cyfarwyddwr Adfywio a Pholisi;
P.R. Thomas, Prif Weithredwr Cynorthwyol (Rheoli Pobl a Pherfformiad);
L.R. Jones, Pennaeth Gweinyddiaeth a'r Gyfraith;
D. Hockenull, Rheolwr y y Cyfryngau a Marchnata;
J. Owen, Swyddog Gwasanaethau Democrataidd.

Siambr, Neuadd y Sir, Caerfyrddin – 2:00pm - 2:30pm

1. YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB.

Cafwyd ymddiheuriad am absenoldeb gan y Cynghorydd E. Dole.

2. DATGAN BUDDIANNAU PERSONOL.

Ni ddatganwyd unrhyw fuddiannau personol.

3. CWESTIYNAU Â RHYBUDD GAN YR AELODAU.

Dywedodd y Cadeirydd nad oedd dim cwestiynau â rhybudd wedi cael eu cyflwyno gan yr Aelodau.

4. CWESTIYNAU Â RHYBUDD GAN Y CYHOEDD.

Dywedodd y Cadeirydd nad oedd dim cwestiynau â rhybudd wedi dod i law gan y cyhoedd.

5. UNRHYW FATER ARALL Y GALL Y CADEIRYDD OHERWYDD AMGYLCHIADAU ARBENNIG BENDERFYNU EI YSTYRIED YN FATER BRYN YN UNOL AG ADRAN 100B(4)(B) O DDEDDF LLYWODRAETH LEOL, 1972.

Ni chodwyd unrhyw faterion eraill.

6. GORCHYMYN I'R CYHOEDD ADAEL Y CYFARFOD.

PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL, yn unol â Deddf Llywodraeth Leol 1972, fel y'i diwygiwyd gan Orchymyn Llywodraeth Leol (Mynediad at Wybodaeth) (Amrywio) (Cymru) 2007, orchymyn i'r cyhoeddadael y cyfarfod tra oedd yr eitem ganlynol yn cael ei hystyried, gan fod yr adroddiad yn cynnwys gwybodaeth eithriedig fel y'i diffiniwyd ym Mharagraff 14 o Ran 4 o Atodlen 12A i'r Ddeddf.

7. CYNLLUN BUSNES LLESIANT DELTA WELLBEING LTD.

Yn sgil gweithredu'r prawf budd y cyhoedd PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL, yn unol â'r Ddeddf y cyfeiriwyd ati yng Nghofnod 6 uchod, ystyried y mater hwn yn breifat gan orchymyn i'r cyhoeddadael y cyfarfod, gan y byddai'r drafodaeth yn datgelu gwybodaeth eithriedig ynghylch materion ariannol neu faterion busnes unrhyw unigolyn penodol (gan gynnwys yr Awdurdod oedd yn meddu ar y wybodaeth honno).

Ystyriodd y Bwrdd Gweithredol adroddiad yr oedd cynllun busnes manwl 2018/19 wedi'i atodi iddo ar gyfer y Cwmni Masnachu Awdurdod Lleol, sef Llesiant Delta Wellbeing Ltd. Roedd y cynllun busnes wedi'i baratoi fel yr oedd yn ofynnol yn sgil penderfyniadau'r Bwrdd Gweithredol ar 22 Ionawr 2018 a'r Cyngor Llawn yn dilyn hynny ar 14 Chwefror 2018.

Nododd y Bwrdd fod cynllun busnes 2018/19 wedi'i gymeradwyo gan Grŵp Llywodraethu Llesiant Delta Wellbeing a bod angen i'r Bwrdd Gweithredol gymeradwyo'r cynllun a gyflwynwyd er mwyn i Llesiant Delta Wellbeing ddechrau masnachu o 1 Mehefin 2018.

PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL:

- 7.1 Cymeradwyo Cynllun Busnes manwl Llesiant Delta Wellbeing Ltd yn unol â gofynion y cyngor llawn ar 14 Chwefror 2018, ac yn benodol:**
- 7.2 Adennill costau sefydlu'r Cwmni drwy drefnu benthyciad rhwng y Cyngor Sir a'r Cwmni ar gyfradd log fasnachol. Bydd y gwerth yn cael ei bennu yng nghynllun busnes manwl y Cwmni a bydd y Bwrdd Gweithredol yn cytuno arno.**

CADEIRYDD

DYDDIAD

BWRDD GWEITHREDOL 4 Mehefin, 2018

Bargen Ddinesig Bae Abertawe

Y Pwrpas:

I gymeradwyo sefydlu'r Cyd-bwyllgor Bargen Dinesig Bae Abertawe a'r ffynonellau ariannol cysylltiedig

Yr Argymhellion / Penderfyniadau Allweddol sydd eu hangen:

- I Aelodau i gymeradwyo sefydlu'r Cyd-bwyllgor Bargen Dinesig Bae Abertawe (BDBA) a'r strwythur llywodraethu cysylltiedig
- I Aelodau i gymeradwyo'r Cytundeb drafft ar gyfer y Cyd-Bwyllgor a rhoi awdurdod dirprwyedig i'r Prif Weithredwr, mewn ymgynghoriad gyda'r Arweinydd, i wneud mân ddiwygiadau i'r Cytundeb fel sy'n ofynnol ac y cytunir rhwng yr Awdurdodau a Llywodraethau'r DU a Chymru er mwyn derfynu'r cytundeb.
- I Aelodau i gymeradwyo sefydlu'r Cyd Bwyllgor Craffu ar gyfer Bargen Ddinesig Bae Abertawe
- I Aelodau i gymeradwyo'r cynnig bod Cyngor Sir Gaerfyrddin yn cyfrannu £50 mil y flwyddyn dros y 5 mlynedd i gyd-dalu costau gweithredu ar y cyd ar gyfer y Cydbwyllgor, y Bwrdd Strategaeth Economaidd, y Bwrdd Rhaglen, Cyd Bwyllgor Craffu, y Corff Atebol a'r Swyddfa Ranbarthol ac yn cymeradwyo'r egwyddor i ddarparu arian sy'n gyfwerth â 1.5% o ddyraniad cyllid y Fargen Ddinesig. Bydd y cytundeb ar sail ddarparu'r cyllid hwn yn cael ei ddirprwyo i'r Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol mewn ymgynghoriad a'r Aelod o'r Bwrdd Gweithredol dros Adnoddau
- I Aelodau awdurdodi'r Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol (swyddog Adran 151) i archwilio a gweithredu'r benthycu cymesur mwyaf priodol i ariannu prosiectau rhanbarthol a ddarperir yn ardaloedd perthnasol y Cyngor.
- I Aelodau awdurdodi'r Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol i drafod gyda'r chydweithwyr Cyfarwyddwyr y dyraniad mwyaf priodol ar gyfer cadw cyfraddau annomestig rhanbarthol mewn perthynas â'r 11 prosiect.

Y Rhesymau:

I sefydlu strwythurau llywodraethu er mwyn symud ymlaen gyda Bargen Dinesig Bae Abertawe. Dylid nodi bod y tri awdurdod lleol arall, sef Cyngor Sir Penfro, Cyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot a Chyngor Abertawe, yn cyflwyno adroddiadau tebyg i'w Cabinet a'u Cyngorau ar yr un pryd.

Ymgynghorwyd â'r pwyllgor craffu perthnasol

AMHERTHNASOL

Angen i'r Bwrdd Gweithredol wneud penderfyniad OES
Angen i'r Cyngor wneud penderfyniad OES

YR AELOD O'R BWRDD GWEITHREDOL SY'N GYFRIFOL AM Y PORTFFOLIO:-

Arweinydd y Cyngor, y Cynghorydd Emlyn Dole

Y Gyfarwyddiaeth:

Enw Pennaeth y

Gwasanaeth:

Mark James

Awdur yr Adroddiad:

Swyddfa Ranbarthol BDBA

Swyddi:

Prif Weithredwr

Rhifau ffôn:

01267 224110

Cyfeiriadau E-bost:

mjames@sirgar.gov.uk



EICH CYNGOR arleinamdani
www.sirgar.llyw.cymru

YOUR COUNCIL doitonline
www.carmarthenshire.gov.wales

EXECUTIVE SUMMARY

Executive Board

4th June, 2018

Swansea Bay City Deal

1. BRIEF SUMMARY OF PURPOSE OF REPORT

Council approval was received from each of the four local authorities of Swansea, Neath Port Talbot, Carmarthenshire and Pembrokeshire to sign a City Deal agreement (Heads of Terms), worth a total value of £1.3bn. This was subsequently signed with UK and Welsh Governments on the 20th March, 2017. The signing of the document confirmed joint commitment by all four local authorities to implement the Swansea Bay City Deal proposals along with other specific areas namely wider economic development matters including planning and transport.

Since the signing, the Swansea Bay City Deal has been operating in Shadow form in order to maintain momentum and develop the necessary governance arrangements that will enable the region to deliver the Swansea Bay City Deal programme. This has involved the development of the Joint Committee Agreement (JCA) which provides the legal framework within which the Swansea Bay City Deal will operate

Detailed discussions with the WG have also taken place and it has been agreed that:

- SBCD Local Authorities are able to retain 50% of the additional net yield in the non-domestic rates generated by the 11 projects which are to be delivered by the Deal.
- That the SBCD Local Authorities are able to utilise funding flexibilities in respect of the revenue based project expenditure, details of which are now included with the Joint Agreement.

The attached report sets out governance proposals and related financial requirements as well as key functions that need to be formally established.

2. OTHER OPTIONS AVAILABLE AND THEIR PROS AND CONS

There are currently no alternative options of the scale of the City Deal, particularly with the current situation around Brexit and EU funds.

The £1.3 billion City Deal investment programme provides a once in a generation opportunity to increase prosperity and opportunity in the urban and rural areas across Carmarthenshire, Neath Port Talbot, Pembrokeshire and Swansea.

Through an innovative private and public partnership, the Swansea Bay City Deal will considerably boost growth in sectors including digital enterprise, life science and well-being, smart manufacturing and sustainable energy production. The Deal will also work to ensure that our current and future workforces are equipped with the skills, knowledge and experience to take advantage of opportunities created through the City Deal. This will help build the region for local people and local businesses as the major projects unfold.

With the Swansea Bay City Deal Heads of Terms firmly signed, there is a need set in place robust governance arrangements and to continue the momentum and excellent progress already made to ensure that the Region is in a position to begin delivering against its ambitious and extremely exciting transformational plans.

| | |
|----------------------------------|---|
| | |
| DETAILED REPORT ATTACHED? | YES Draft Joint Committee Agreement WG Capital Funding Guidance document |

IMPLICATIONS

I confirm that other than those implications which have been agreed with the appropriate Directors / Heads of Service and are referred to in detail below, there are no other implications associated with this report :

Signed: Mark James

Chief Executive

| Policy, Crime & Disorder and Equalities | Legal | Finance | ICT | Risk Management Issues | Staffing Implications | Physical Assets |
|---|------------|------------|------------|------------------------|-----------------------|-----------------|
| YES | YES | YES | YES | YES | YES | YES |

1. Policy, Crime & Disorder and Equalities

The Swansea Bay City Deal is an excellent example of working in partnership with other councils, universities and education providers, health boards, UK and Welsh Governments, and the business community. It demonstrates what collaboration and joined-up thinking can achieve for our citizens.

The Well-being of Future Generations (Wales) Act 2015 - the City Deal is a good example of the 5 Ways of Working promoted by the Act and will make a significant contribution to the 7 well-being goals.

The City Deal is a 15 year programme which provides an opportunity to address persistent challenges such as climate change, poverty, inequality, jobs and skills and rurality in a transformational and preventative way.

It is also an opportunity for the 4 authorities to demonstrate how they are using the 5 Ways of Working to maximize their contribution to the well-being goals required under the Act, through a major public and private investment programme.

2. Legal

The Swansea Bay City Deal Joint Committee shall be governed by the provisions of the Joint Committee Agreement.

The terms of the Joint Committee Agreement commits Carmarthenshire County Council to discharge its responsibilities to meet the requirements of the Heads of Terms document signed on 20th March, 2017.

3. Finance

The structure of the deal in terms of financing will be based on a 15 year programme. The four local authorities will be asked to borrow the required sum (each Local Authority will fund its relevant projects) and the funding will be drawn down as projects develop over a period of 5 years.

The capital borrowing (in respect of the Government funded element) for the SBCD projects will be re-paid by Government funds (UK & Welsh government) over the 15 year period. The exact level of borrowing and the structure and terms of the borrowing is yet to be confirmed, however it will be calculated based on the amount required per relevant local authority and will be agreed based on the principles of the Prudential Code and the Treasury Management Strategy and Policy for each Authority. When further details of the investments required for each project are known, a full business case appraisal for each individual project will be completed and submitted to the relevant local authority for approval before submission to the Joint Committee. These full business cases will include the detailed funding proposals and requirements of the local authority.

To support the interest costs for each Authority, Welsh Government have agreed that SBCD Local Authorities are able to retain 50% of the additional net yield in the non-domestic rates generated by the 11 projects. The basis of the allocation of the rates generated within the SBCD is yet to be agreed.

The Accountable Body has set-up a Swansea Bay City Deal Financial & Legal Group which comprises representatives from each of the four local authorities. The group is tasked at looking at the accounting and reporting implications that will arise from the implementation of the City Deal Programme as well as the borrowing requirements of the City Deal proposal.

There will be a requirement for each Local Authority to contribute £50k per annum over 5 years plus equivalent to 1.5% top slice of the City Deal allocation (Government funding) to cover the operating costs of the Accountable Body and Regional Office functions.

4. ICT

There will be implications on ICT requirements in relation to governance although it is not envisaged that this will be of a significant nature.

The Digital Infrastructure project will present significant opportunities for the Region and each local authority's ICT departments will be engaged in the developments.

5. Risk Management Issues

Each Swansea Bay City Deal project will carry its associated risks which will be mitigated throughout the application and delivery process. A detailed risk analysis will be undertaken for all projects by the Project Delivery Lead as part of the development of the 5 base business model process, and a project specific Risk Register established to assist in the management and mitigation of all risks.

6. Physical Assets

Project Delivery Leads will take full responsibility and ownership of all physical assets funded through the Swansea Bay City Deal.

Associated revenue costs and sustainability will be fully addressed in the respective 5 case business models for each project. Ongoing maintenance and insurance of all such assets will be the responsibility of the respective Project Delivery Lead.

7. Staffing Implications

Each Swansea Bay City Deal project will establish their own project delivery team.

Carmarthenshire County Council, as Accountable Body for the Swansea Bay City Deal, will recruit and host staff responsible for fulfilling the functions of the Accountable Body and Regional Office.

CONSULTATIONS

I confirm that the appropriate consultations have taken in place and the outcomes are as detailed below

Signed: Mark James

Chief Executive

1. Scrutiny Committee

A report on the SBCD City Deal proposals went through the political process in February 2017 with Full Council Approval received in March 2017.

2. Local Member(s)

A member's seminar on the City Deal was held on the 27th July 2016.

A report on the SBCD City Deal proposals went through the political process in February 2017 with Full Council Approval received in March 2017.

The Region has also consulted with Assembly Members last year and recently on 7th February 2018 as well as Members of Parliament through specific briefing sessions held on the 3rd and 10th February 2017.

3. Community / Town Council

4. Relevant Partners

Reports outlining the proposals of the SBCD were submitted and subsequently approved by each of the four local authorities in March 2017.

5. Staff Side Representatives and other Organisations

Section 100D Local Government Act, 1972 – Access to Information

List of Background Papers used in the preparation of this report:

| Title of Document | File Ref No. | Locations that the papers are available for public inspection |
|--|--------------|--|
| Swansea Bay City Deal Heads of Terms Agreement | N/A | Available from Swansea Bay City Deal Regional Office: citydeal@carmarthenshire.gov.uk |



EICH CYNGOR **arleinamdani**
www.sirgar.llyw.cymru

YOUR COUNCIL do it online
www.carmarthenshire.gov.wales

Swansea Bay City Deal

Programme Governance and Financial Arrangements

May 2018

1.0 Purpose of the Report

1.1 To provide an overview of the proposed governance arrangements for the Swansea Bay City Deal (SBCD) and outline the roles of the Accountable Body and Regional Office.

1.2 To seek Members' approval of the establishment of the Swansea Bay City Deal Joint Committee and associated governance structure as outlined in this report and in the draft Joint Committee Agreement annexed to this report.

1.3 To seek Members' endorsement of the draft Joint Committee Agreement and grant delegated authority to the Chief Executive in consultation with the Leader to make such minor amendments to the agreement as are required and agreed between the partner authorities and UK and Welsh Governments to finalise the Agreement.

1.4 To seek Members' endorsement of the establishment of a Swansea Bay City Deal Joint Scrutiny Committee.

1.5 To seek Members' approval that Carmarthenshire County Council contributes towards the operating costs of the City Deal governance functions with any variation being agreed with the Director of Corporate Services (Section 151 Officer) in consultation with the Executive Board Member for Resources.

1.6 To seek Members' authorisation for the Director of Corporate Services to suit to explore and implement the most appropriate proportionate borrowing to fund Regional projects delivered in Council respective areas in consultation with Executive Board Member for Resources.

1.7 To seek Members' authorisation for the Director of Corporate Services to negotiate with colleague Directors on the most appropriate allocation basis for the Regional non-domestic rate retention in respect of the 11 projects.


2.0 Background

Last year, Council Approval was received from each of the four local authorities to sign a City Deal Head of Terms agreement with the UK and Welsh Governments. This was subsequently signed on the 20th March, 2017. The signing of the document confirmed joint commitment by all four local authorities in ensuring full implementation of the Swansea Bay City Deal proposals along with other specific areas, namely, wider economic development matters including planning and transport.

Since the signing, the Swansea Bay City Deal has been operating in Shadow form in order to maintain momentum and develop the necessary governance arrangements that will enable the region to deliver the Swansea Bay City Deal programme. Much progress has been made and 8 of the 11 projects are currently with Governments for formal business case assessment.

In order to formalise the current shadow governance arrangements officers have been developing a draft Joint Committee Agreement (JCA) which provides the legal framework within which the Swansea Bay City Deal will operate.

3.0 Proposed Governance Arrangements



3.1 Joint Committee

Bydd y system gategoreiddio newydd yn rhoi darlun clir a theg o gynnydd ysgol. Mae pennu categori ysgol yn broses dri cham. Yn gyntaf, ar ôl i'r data perfformiad a'r hunanwerthuso gael eu dadansoddi, caiff categori cefnogaeth drafft ei bennu ar gyfer pob ysgol. Caiff y categori hwn ei drafod â'r ysgol gan gonsortia rhanbarthol ac yna cytunir arno gyda'r awdurdod lleol.

Mae pedwar categori cefnogaeth:

| | | |
|------------------------|-------------------|---|
| Categori Gwyrdd | Cefnogaeth | Ysgol effeithiol iawn sy'n cael ei chynnal yn dda, sydd ag arweinyddiaeth gref ac sy'n glir ynghylch ei blaenoriaethau ar gyfer gwella. Mae gan yr ysgolion hyn hanes o godi'r safonau a gyflawnir gan y disgyblion ac mae ganddynt y gallu i roi cefnogaeth i ysgolion eraill wneud yn well. |
| Categori Melyn | Cefnogaeth | Ysgol effeithiol sydd eisoes yn gwneud yn dda ac yn gwybod y meysydd y mae angen iddi eu gwella. Trwy ddynodi'r gefnogaeth gywir a chymryd camau, mae ganddi'r potensial i wneud hyd yn oed yn well. |
| Categori Oren | Cefnogaeth | Ysgol sydd angen gwella ac sydd angen cymorth i nodi'r camau ar gyfer gwella neu ar gyfer sicrhau bod newid yn digwydd yn gyflymach. Trwy drafodaethau â'r gwasanaeth gwella ysgolion rhanbarthol a'r awdurdod lleol, bydd yr ysgol yn derbyn pecyn cymorth sydd wedi'i lunio'n unswydd ar ei chyfer. |
| Categori Coch | Cefnogaeth | Ysgol sydd angen gwella fwyaf a bydd yn derbyn cymorth dwys ar unwaith. Bydd y cynnydd yn cael ei fonitro'n fanwl er mwyn sicrhau bod y gwelliannau angenrheidiol yn digwydd mor gyflym â phosibl. |

Mae'r tabl isod yn crynhoi'r data ar gyfer ysgol Gynradd Gors-las ar gyfer 2016/2017;

| Ysgol | Grŵp Safonau* | Gallu'r Ysgol i Wella* | Categori Cefnogaeth |
|----------|---------------|------------------------|---------------------|
| Gors-las | 1 | B | Melyn |

* Y Fframwaith a'r meini prawf ar gyfer hunanwerthuso a'r gallu i hunan-wella mewn perthynas ag arweinyddiaeth, addysgu a dysgu (grŵp safonau 1 – 4, gyda 1 yn y grŵp uchaf a 4 yn yr isaf), a'r gallu i wella (A – D, ysgolion â gallu gwella o safon A ac

sy'n dangos y gallu mwyaf i wella a'r rhai sydd â gallu gwella o safon D ac sy'n dangos y gallu lleiaf i wella).

Fel y gwelir yn y tabl uchod mae Ysgol Gynradd Gors-las wedi'i chategoreiddio yn y categori Melyn sy'n golygu ei bod yn ysgol effeithiol sy'n gwneud yn dda ac sy'n gwybod y meysydd y mae angen iddi eu gwella.

2.10 Arolygiadau Estyn

Fel rhan o raglen genedlaethol o arolygu ysgolion, mae Estyn yn comisiynu adolygiadau o bob ysgol. Cynhaliwyd yr adolygiad diweddaraf o Ysgol Gynradd Gors-las gan Estyn ym mis Mawrth 2014 a gall ymgynghoreion gyrchu'r canfyddiadau naill ai drwy wefan Estyn sef www.estyn.llyw.cymru neu gallwch ofyn i'r Awdurdod Lleol am gopi. (mae'n bosibl y codir tâl am lungopïo.)

Yn ystod pob arolygiad, nod arolygwyr yw ateb tri chwestiwn allweddol. Mae arolygwyr hefyd yn rhoi barn gyffredinol ar berfformiad presennol yr ysgol a'r rhagolygon gwella. Yn y gwerthusiadau hyn, mae'r arolygwyr yn defnyddio graddfa bedwar pwynt:

| Dyfarniad | Beth mae'r dyfarniad yn ei olygu |
|------------|---|
| Rhagorol | Llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o arfer sy'n arwain y sector. |
| Da | Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol. |
| Digonol | Mae'r cryfderau'n drech na'r meysydd sydd i'w gwella. |
| Anfoddhaol | Mae'r meysydd pwysig i'w gwella yn gorbwyso'r cryfderau. |

Dangosir dyfarniadau'r arolygiad yn y tabl canlynol ar gyfer Ysgol Gynradd Gors-las:

| Crynodeb | Barn yr Arolygiad |
|---|-------------------|
| Perfformiad presennol yr ysgol | Digonol |
| Rhagolygon gwella'r ysgol | Da |
| Cwestiynau Allweddol | Barn yr Arolygiad |
| Pa mor dda yw'r deilliannau? | Digonol |
| Pa mor dda yw'r ddarpariaeth? | Da |
| Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth? | Da |

Yn dilyn yr arolygiad ym mis Mawrth 2014, roedd Estyn wedi gwerthuso cynnydd yr ysgol yn ystod ymweliad monitro ym mis Mehefin 2015. Dyfarnwyd bod yr ysgol wedi gwneud cynnydd da o ran materion allweddol ar gyfer gweithredu ac felly roedd yr

ysgol wedi cael ei thynnu oddi ar y rhestr o ysgolion y mae arnynt angen eu monitro gan Estyn.

3. Gwerthusiad o'r Trefniadau Presennol

3.1 Ansawdd a safonau mewn addysg

3.1.1 Deilliannau (safonau a lles)

Fel y nodwyd yn adran 2.10, cynhaliodd Estyn arolygiad yn Ysgol Gorslas ym mis Mawrth 2014, gan farnu bod ei Pherfformiad Presennol yn 'Ddigonol' a bod ei Gallu i Wella yn 'Dda.' Yn sgil cynnydd da'r ysgol ar sail yr argymhellion, cafodd yr ysgol ei thynnu ymaith o gategori 'Monitro' Estyn ym mis Mehefin 2015. Ers hynny, mae'r ysgol wedi parhau i gryfhau ac i wella deilliannau'r disgyblion, gan ennill statws Grŵp 1 Safonau Llywodraeth Cymru ym mis Ionawr 2017. Mae hyn yn dangos bod y Dangosydd Pynciau Craidd ar ddiwedd CA2 wedi parhau i wella dros y pedair blynedd diwethaf yn ogystal â gwelliannau mewn meysydd penodol eraill o ran y deilliannau ar ddiwedd y Cyfnod Allweddol. Yn ogystal â llwyddiannau o'r fath, mae'r ysgol yn canolbwyntio'n gryf ar ddatblygu llesiant pob disgybl. Ceir digon o dystiolaeth o hyn wrth i ddisgyblion ddangos llawer o ddealltwriaeth, gofal a chwarteisi. Mae'r ysgol yn ymfalchïo yn safonau ymddygiad y disgyblion a'u llesiant emosiynol. Mae hyn yn gyfraniad sylweddol i ethos sy'n hyrwyddo ac yn cefnogi addysg effeithiol drwy'r ysgol i gyd.

3.1.2 Y Ddarpariaeth

Mae'r ysgol yn parhau i wella a mireinio ei darpariaeth ar gyfer y disgyblion i gyd a hynny mewn modd creadigol a chynaliadwy. Mae'r staff yn rhyngweithio'n dda drwy gyfrwng systemau cynllunio cydweithredol sy'n effeithiol wrth gynnal ethos cryf yr ysgol, sef ymagwedd gymunedol, ar y cyd, sy'n canolbwyntio ar ddisgwyliadau uchel. Mae'r gwaith hwn wedi arwain at gynnydd a gwelliant, a hynny'n flynyddol ledled yr ysgol. Mae ymyriadau effeithiol yn cael eu hestyn i bob disgybl sydd ag anghenion unigol penodol. Caiff y rhain eu nodi'n gynnar ac mewn modd cefnogol, gan gysylltu â rhieni a phartneriaid i sicrhau darpariaeth o'r lefel uchaf sy'n berthnasol i bob plentyn. Mae ansawdd yr addysgu yn parhau i ffynnu ac mae'n elwa ar dargedu'n benodol feysydd megis strategaethau Asesu ar gyfer Dysgu, cysondeb wrth roi adborth a marciau i ddisgyblion, ac ati. Mae darpariaeth yr ysgol hefyd yn elwa'n fawr ar gael tîm effeithiol o staff cymorth sy'n cydweithredu'n agos ag athrawon a disgyblion.

3.1.3 Arweinyddiaeth a Rheolaeth

Mae'r Corff Llywodraethu, y Pennaeth a'r staff yn rhannu gweledigaeth frwdfrydig a phendant ar gyfer eu hysgol. Mae model effeithiol o arweinyddiaeth wasgaredig wedi datblygu yn yr ysgol gan arwain at welliannau clir o ran darpariaeth a deilliannau'r disgyblion. Mae diwylliant parhaus o osod disgwyliadau uchel yn bodoli ledled yr ysgol. O ganlyniad, mae athrawon, staff a llywodraethwyr yn weithgar, yn angerddol

ac yn canolbwyntio'n llwyr ar ddatblygu pob plentyn i'w lawn botensial, a hynny mewn amgylchedd cwbl gynhwysol. Mae'r ysgol yn elwa ar ddulliau eang ac effeithiol o weithio mewn partneriaeth â rhieni, y gymuned, rhwydweithiau ysgolion ac asiantaethau cymorth amrywiol.

3.1.4 Effaith y cynnig ar Ansawdd a Safonau o ran Addysg

Bydd y ddarpariaeth arfaethedig, ddiwygiedig yn rhoi cyfle i bob disgybl a addysgir ar hyn o bryd yn Ysgol Gorslas elwa ar amgylchedd addysgol gwell. Bydd hyn yn hwyluso gwelliant pellach o ran y safonau, y ddarpariaeth a'r arweinyddiaeth dda sy'n bodoli eisoes.

3.2 Yr angen am lleoedd a'r effaith ar hygyrchedd ysgolion

Mae'r Awdurdod Lleol wedi ystyried a oes lleoedd digonol ar gael a'r galw tebygol am lleoedd yn y dyfodol. Dros yr ychydig flynyddoedd diwethaf, mae'r galw am addysg cyfrwng Cymraeg yn Sir Gaerfyrddin wedi cynyddu ac mae hyn hefyd yn wir am y galw yn Ysgol Gynradd Gors-las, gan fod mwy o blant yn yr ysgol na'r lleoedd sydd ar gael ar hyn o bryd. Fel y gwelir yn adran 2.6, mae nifer disgyblion yr ysgol yn fwy na'r lleoedd sydd ar gael ers y pum mlynedd diwethaf ac o ganlyniad gosodwyd ystafell ddosbarth symudol ym mis Medi 2015, gydag ystafell symudol ychwanegol yn cael ei gosod yn barod ar gyfer blwyddyn academiaidd 2017/2018.

Yn ogystal, yn seiliedig ar ddata CYBLD Ionawr 2017:

| | |
|---|------------|
| Nifer y disgyblion sy'n byw o fewn dalgylch ysgol Gynradd Gors-las sy'n mynychu Ysgol Gynradd Gorslas | 78 |
| Nifer y disgyblion sy'n byw o fewn dalgylch ysgol Gynradd Gors-las ond sy'n mynychu ysgolion eraill | 140 |
| Cyfanswm nifer y disgyblion sy'n byw o fewn dalgylch Ysgol Gynradd Gors-las | 218 |

Er nad yw'r holl ddisgyblion sy'n byw o fewn dalgylch Ysgol Gynradd Gors-las yn mynychu'r ysgol ar hyn o bryd, mae'r Awdurdod Lleol yn cynnig cynyddu nifer y lleoedd yn yr ysgol o 110 i 210 er mwyn rheoli'r galw presennol a'r galw yn y dyfodol am addysg cyfrwng Cymraeg.

3.3 Adnoddau addysg a goblygiadau ariannol eraill

3.3.1 Lleoedd gwag /Materion ynghylch lleoedd

Fel y nodir yn adran 2.6, mae mwy o ddisgyblion yn yr ysgol ar hyn o bryd na'r lleoedd sydd ar gael ac mae hyn wedi bod yn wir dros y blynyddoedd diwethaf. O ganlyniad, gosodwyd ystafell ddosbarth symudol ym mis Medi 2015 ac ystafell ddosbarth symudol ychwanegol yn barod ar gyfer blwyddyn academiaidd 2017/2018. Gan fod diffyg cysondeb clir rhwng nifer y lleoedd yn yr ysgol a'r galw am lleoedd mewn addysg cyfrwng Cymraeg, bydd y cynnig hwn yn lliniaru'r problemau o ran

nifer y lleoedd yn yr ysgol ac yn sicrhau bod nifer digonol o leoedd ar gael i ddarparu ar gyfer y galw yn y dyfodol.

3.3.2 Costau Cludiant

Bydd trefniadau cludiant yn cael eu gwneud yn unol â pholisi'r Cyngor Sir ar gyfer cludo o'r cartref i'r ysgol. Ni fydd dim newid i'r costau trafnidiaeth.

3.3.3 Costau cyfalaf/ Derbyniadau cyfalaf

Yn rhan o amlen gyllid Band A Ysgolion 21^{ain} Ganrif sydd werth £86.7m mae cynllun yn cael ei ddatblygu i ddarparu adeilad ysgol newydd i Ysgol Gynradd Gors-las. Cyllidir y buddsoddiad hwn yn gyfartal rhwng Llywodraeth Cymru a'r Awdurdod Lleol yn amodol ar Lywodraeth Cymru yn cymeradwyo'r achos busnes.

Bydd unrhyw dderbyniadau cyfalaf a geir o ganlyniad i'r cynllun i ddarparu adeilad ysgol newydd ar gyfer Ysgol Gynradd Gors-las yn cael eu hail-fuddsoddi yn y Rhaglen Moderneiddio Addysg.

3.3.4 Cyllidebau Ysgolion

Ar sail data 2017/18 y gost gyllidebol fesul disgybl yw £3,354 yn Ysgol Gynradd Gors-las, sydd yn is na chyfartaledd y sir o £3,649.

4. Yr Amcanion

Ein gweledigaeth yn Sir Gaerfyrddin yw darparu ysgolion dichonol, cynaliadwy ac effeithlon sy'n addas ar gyfer yr 21ain Ganrif a hynny drwy gael yr ysgol iawn yn y lle iawn ar gyfer y disgyblion presennol a disgyblion y dyfodol, gan sicrhau bod pob plentyn yn cael cyfleoedd dysgu o safon. Ein nod tymor hir, dan Raglen Ysgolion yr 21^{ain} Ganrif yw creu, yn yr ysgol, amgylchedd dysgu a fydd yn diwallu anghenion y cymunedau ac yn cynnig y ddarpariaeth ddysgu orau i'r ardal.

Cenhadaeth ein Rhaglen Moderneiddio Addysg yw:

"trawsnewid y rhwydwaith o ysgolion meithrin, cynradd ac uwchradd sy'n gwasanaethu'r sir yn adnodd effeithiol o safbwynt strategol a gweithredol a fydd yn bodloni'r angen ar hyn o bryd ac yn y dyfodol ar gyfer addysg yn yr ysgol a'r gymuned, a buddsoddi lle bo'n briodol er mwyn datblygu a gwella manau, adeiladau a seilwaith er mwyn sicrhau bod ysgolion wedi'u lleoli, eu dylunio, eu hadeiladu neu eu haddasu'n briodol i feithrin datblygiad cynaliadwy pobl a chymunedau Sir Gaerfyrddin."

Amcanion strategol ein Rhaglen Moderneiddio Addysg yw:

- Datblygu rhwydwaith ysgolion sy'n gynaliadwy'n addysgol ac yn defnyddio adnoddau'n effeithlon yn y tymor hir.
- Datblygu strwythur darpariaeth sy'n golygu y gall pob lleoliad dysgu ddarparu addysg o ansawdd uchel ar gyfer ei holl ddysgwyr cofrestredig, naill ai fel sefydliad unigol neu fel rhan o ffederasiwn ffurfiol neu drefniant cydweithredol gyda lleoliadau neu ddarparwyr eraill.
- Datblygu seilwaith ym mhob ysgol sy'n eu galluogi i ddarparu addysg yn yr 21ain ganrif ac sy'n cefnogi gwireddu'r amcanion craidd ar gyfer codi safonau addysgol a chynnal perfformiad o safon uchel.
- Darparu dull strategol o ran buddsoddiadau cyfalaf, ac integreiddio hynny â rhaglen i resymoli'r ddarpariaeth ledled y rhwydwaith ysgolion er mwyn cyflenwi'r galw yn effeithiol.
- Ailadeiladu, ailfodelu, adnewyddu neu foderneiddio'r holl ysgolion sydd i'w cadw yn y tymor hir, er mwyn iddynt gydymffurfio, i'r graddau y mae hynny'n ymarferol, â'r safonau dylunio a fabwysiadwyd.
- Cyfrannu at gyflawni amcanion polisi ehangach, er enghraifft, adnewyddu ac adfywio cymunedol, ffyrdd iach o fyw ac ati, trwy ddatblygu seilwaith galluogi priodol.

- Gwella effeithlonrwydd a dichonoldeb addysgol y sector ysgolion drwy leihau nifer y lleoedd gwag hyd at lefel resymol, a hwyluso, lle bo hynny'n ymarferol, y dewisiadau a fynega'r rhieni gan ymateb yn effeithiol i newidiadau demograffig.
- Cyflunio ysgolion a buddsoddi mewn safleoedd ysgolion modern fel bod yr holl system ysgolion yn Sir Gaerfyrddin yn gallu cefnogi'r gwaith o roi'r Fframwaith Effeithiolrwydd Ysgolion ar waith mewn modd effeithiol a sicrhau canlyniadau sy'n gwella i blant a phobl ifanc.

Mae amcanion strategol y Rhaglen Moderneiddio Addysg yn cyd-fynd yn dda â'r amcanion cenedlaethol;

- Gwell amgylcheddau dysgu i blant, ynghyd â gwell deilliannau addysgol.
- Arbed mwy o arian trwy ddefnyddio adnoddau'n well er mwyn gwella effeithlonrwydd a chost-effeithiolrwydd yr ystad addysg.
- Cael system addysg sy'n fwy cynaliadwy gan leihau costau rheolaidd a'r ôl troed carbon.

5. Dewisiadau ar gyfer Newid

Wrth ddatblygu dewis a ffeirir, bu'r Awdurdod yn ystyried amrywiaeth o ddewisiadau. Cafodd pob dewis ei werthuso mewn perthynas ag amcanion a meini prawf allweddol, a hynny er mwyn pennu pa ddewis oedd yn gweddu orau i ddyhead Sir Gaerfyrddin er mwyn darparu ysgol ddichonadwy a chynaliadwy sy'n addas ar gyfer addysgu a dysgu yn yr 21^{ain} Ganrif.

5.1 Y Prif Ddewisiadau dan Ystyriaeth

| | |
|---------|--|
| Dewis 1 | Y sefyllfa bresennol – Cadw'r ysgol ar y ffurf bresennol heb unrhyw fuddsoddiad. |
| Dewis 2 | Darparu 30 yn rhagor o leoedd yn Ysgol Gynradd Gors-las (drwy osod ystafell ddosbarth symudol). |
| Dewis 3 | Cynyddu nifer y lleoedd yn Ysgol Gynradd Gors-las i 180 (drwy adnewyddu'r adeilad ysgol presennol ac adeiladu bloc newydd ar y safle presennol). |
| Dewis 4 | Cynyddu nifer y lleoedd yn Ysgol Gynradd Gors-las i 210 (drwy ddarparu adeilad newydd). |

5.2 Manteision/Anfanteision Pob Dewis

| Dewis 1 | |
|---|--|
| Y sefyllfa bresennol – Cadw'r ysgol ar y ffurf bresennol heb unrhyw fuddsoddiad | |
| Manteision | Anfanteision |
| <ul style="list-style-type: none">Ni fydd dim yn newid i'r rhanddeiliaid.Ni fydd angen gweithdrefnau statudol. | <ul style="list-style-type: none">Ni fydd y dewis hwn yn mynd i'r afael â materion presennol ynghylch nifer y lleoedd ar gyfer disgyblion yn yr ysgol.Ni fydd y dewis hwn yn darparu cyfleoedd i gynyddu nifer y disgyblion sy'n cael addysg cyfrwng Cymraeg yn yr ysgol.Ni fydd yn darparu dysgu ac addysgu o'r safon uchaf.Ni fydd digon o le, dan do nac yn yr awyr agored, i ddarparu a gwella cwricwlwm y Cyfnod Sylfaen a chyfleoedd chwarae ar gyfer pob dysgwr. |

Dewis 2

Darparu 30 yn rhagor o leoedd yn Ysgol Gynradd Gors-las (drwy osod ystafell ddosbarth symudol)

| Manteision | Anfanteision |
|---|---|
| <ul style="list-style-type: none">Ni fydd dim yn newid i'r rhanddeiliaid.Nid fydd angen gweithdrefnau statudol.Bydd yn mynd i'r afael â materion ynghylch nifer y lleoedd ar gyfer disgyblion yn yr ysgol yn y tymor byr. | <ul style="list-style-type: none">Ni fydd y dewis hwn yn bodloni'r galw tymor hir am addysg cyfrwng Cymraeg yn yr ardal.Mae dwy ystafell ddosbarth symudol wedi'u gosod ar safle'r ysgol ar hyn o bryd – nid oes digon o le ar gyfer ystafell ddosbarth symudol ychwanegol.Bydd yn rhaid i ddisgyblion a staff deithio rhwng y prif adeilad ysgol a'r ystafell ddosbarth symudol.Ni fydd yn darparu dysgu ac addysgu o'r safon uchaf.Ni fydd digon o le, dan do nac yn yr awyr agored, i ddarparu a gwella cwricwlwm y Cyfnod Sylfaen a chyfleoedd chwarae ar gyfer pob dysgwr. |

Dewis 3

Cynyddu nifer y lleoedd yn Ysgol Gynradd Gors-las i 180 (drwy adnewyddu'r adeilad ysgol presennol ac adeiladu bloc newydd ar y safle presennol)

| Manteision | Anfanteision |
|---|--|
| <ul style="list-style-type: none">Ni fydd dim yn newid i'r rhanddeiliaid.Bydd yn mynd i'r afael â'r galw tymor canolig am leoedd cynradd cyfrwng Cymraeg.Bydd yn darparu gwell cyfleusterau ar gyfer addysgu a dysgu yn yr 21^{ain} Ganrif. | <ul style="list-style-type: none">Ni fydd y dewis hwn yn bodloni'r galw tymor hir am addysg gynradd cyfrwng Cymraeg yn yr ardal ac ni fydd yn cyflawni amcanion strategol yr Awdurdod Lleol.Bydd angen proses statudol.Nid oes digon o le ar gael ar y safle presennol i adeiladu bloc newydd. |

| | |
|--|---|
| <ul style="list-style-type: none"> • Bydd yn symud ar hyd continwwm yr iaith Gymraeg drwy ddarparu mwy o gyfleoedd i gael addysg cyfrwng Cymraeg yn yr ardal. | <ul style="list-style-type: none"> • Byddai angen rhoi trefniadau pontio ar waith yn ystod y gwaith adeiladu. • Bydd angen buddsoddiad cyfalaf. |
|--|---|

| Opsiwn 4 (yr Opsiwn a Ffafir) Cynyddu nifer y lleoedd yn Ysgol Gynradd Gors-las i 210 (drwy ddarparu adeilad newydd) | |
|--|---|
| Manteision | Anfanteision |
| <ul style="list-style-type: none"> • Bydd y dewis hwn yn bodloni'r galw presennol a'r galw tymor hir am leoedd cynradd cyfrwng Cymraeg yn yr ardal. • Bydd yn symud ar hyd continwwm yr iaith Gymraeg drwy ddarparu mwy o gyfleoedd i gael addysg cyfrwng Cymraeg yn yr ardal. • Ni fydd angen trefniadau pontio yn ystod y gwaith adeiladu. • Bydd yn darparu gwell cyfleusterau ar gyfer addysgu a dysgu yn yr 21^{ain} Ganrif. • Bydd yn sicrhau bod y ddarpariaeth addysgu a dysgu o'r safon uchaf ar gyfer addysg gynradd cyfrwng Cymraeg ar gael. • Bydd yn darparu lle i ddarparu a gwella cwricwlwm y Cyfnod Sylfaen a chyfleoedd chwarae ar gyfer pob dysgwr. • Bydd yn gyfle i rannu cyfleusterau gyda'r gymuned. | <ul style="list-style-type: none"> • Bydd angen proses statudol. • Bydd ychydig o gynnydd o ran y pellter teithio a'r amser teithio ar gyfer y disgyblion. • Bydd angen buddsoddiad cyfalaf. |

6. Y Cynnig

6.1 Y Rhesymeg dros Newid

Fel yr amlinellwyd eisoes, mae dyletswydd gyfreithiol ar y Cyngor Sir i adolygu nifer a math yr ysgolion sydd ganddo yn yr ardal, ac mae'n ofynnol iddo sicrhau eu bod yn y man iawn a bod ganddynt y cyfleusterau iawn ar gyfer y dyfodol a'r adnoddau iawn i ddarparu addysg a dysg i ddisgyblion.

Ar hyn o bryd, mae gan yr ysgol le i 110 o ddisgyblion rhwng 4-11 oed. Fodd bynnag, fel y nodwyd eisoes, mae'r galw am addysg cyfrwng Cymraeg yn Sir Gaerfyrddin wedi cynyddu dros y blynyddoedd diwethaf ac mae hyn hefyd yn wir am niferoedd y disgyblion yn yr ysgol. Ar hyn o bryd mae nifer y disgyblion yn fwy na'r lleoedd sydd ar gael; ac fel y nodwyd yn adran 2.6; mae hyn wedi bod yn wir am y blynyddoedd diwethaf. Mae hyn wedi dangos bod diffyg cysondeb clir rhwng nifer y lleoedd sydd ar gael yn yr ysgol a'r galw am addysg cyfrwng Cymraeg yn yr ardal. O ganlyniad, gosodwyd ystafell ddosbarth symudol ym mis Medi 2015, gydag ystafell ddosbarth symudol ychwanegol yn cael ei gosod yn barod ar gyfer tymor academaidd 2017/2018.

O ganlyniad, mae'r Awdurdod Lleol ar hyn o bryd yn datblygu cynllun i ddarparu adeilad addas i Ysgol Gynradd Gors-las ar gyfer addysgu a dysgu yn yr 21^{ain} Ganrif, a fydd yn bodloni'r galw presennol a'r galw yn y dyfodol ar addysg cyfrwng Cymraeg.

6.2 Y Cynnig

Oherwydd y galw cynyddol am leoedd addysg cyfrwng Cymraeg yn ardal Gorslas, cynnig yr Awdurdod Lleol yw:

- cynyddu nifer y lleoedd yn Ysgol Gynradd Gors-las o 110 i 210 o 1 Medi 2019 pan argymhellir symud i mewn i'r adeilad newydd.

6.3 Darpariaeth Anghenion Dysgu Ychwanegol

Ni fydd unrhyw newid i'r ddarpariaeth bresennol a gynigir i ddisgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol yn yr ysgol. Fodd bynnag, pan fydd adeilad yr ysgol newydd wedi'i gwblhau, bydd y cyfleusterau gwell yn gwella addysgu a dysgu yn uniongyrchol ar gyfer pob dysgwr, gan gynnwys y rhai o grwpiau sy'n fwy agored i niwed, gan gynnwys dysgwyr Anghenion Dysgu Ychwanegol.

6.4 Dalgylch yr Ysgol

Ni fydd dalgylch presennol yr ysgol yn newid.

Y lleoliad sy'n cael ei ffafrio ar gyfer safle adeilad newydd yr ysgol yw Parc Gors-las sy'n parhau i fod o fewn dalgylch presennol Ysgol Gynradd Gorslas, felly bydd y dalgylch dynodedig yn seiliedig ar ddalgylch yr ysgol bresennol.

6.5 Trosglwyddo i'r Ysgol Uwchradd

Ni fydd unrhyw newid yn y trefniadau presennol o ran disgyblion yn trosglwyddo i addysg Uwchradd.

6.6 Trefniadau Pontio

Ni fydd dim newid i'r disgyblion wrth i'r gwaith adeiladu fynd rhagddo, bydd disgyblion yn parhau i fod ar safle presennol yr ysgol hyd nes y cwblheir y gwaith adeiladu. Byddai disgyblion yn adleoli i'r ysgol newydd ym mis Medi 2019 sef y dyddiad yr argymhellir i'r disgyblion ddechrau yn yr ysgol newydd.

6.7 Manteision ac Anfanteision y Cynnig

Manteision

- Mwy o gyfleoedd i gael mynediad at addysg cyfrwng Cymraeg.
- Mynd i'r afael â materion ynghylch nifer y lleoedd ar gyfer disgyblion yn yr ysgol.
- Sicrhau bod yr ysgol yn darparu ar gyfer y galw am leoedd mewn ysgolion cyfrwng Cymraeg yn y dyfodol.

Yr Anfanteision

- Angen proses statudol i weithredu'r cynnig.

6.8 Y Risgiau a'r Mesurau i'w Lliniaru

| Risg | | Y Mesur i Liniaru'r Risg |
|------|--|---|
| 1. | Methu â chael cymeradwyaeth statudol i weithredu'r cynnig. | - Dilyn y canllawiau a bennwyd yn y Côd Trefniadaeth Ysgolion 2013. |
| 2. | Methiant â chael cymeradwyaeth i'r achosion busnes. | - Dilyn canllawiau achos busnes fel y'u nodir yn y Rhaglen Ysgolion 21 ^{ain} Garrif a Chyllido Ysgolion. |

6.9 Goblygiadau Ariannol - Refeniw

Caiff Ysgol Gynradd Gors-las ei chyllido yn unol â pholisi Ariannu Teg y Cyngor Sir a bydd yn derbyn adnoddau ar yr un sail ag unrhyw ysgol arall yn y Cyngor Sir, a hynny yn seiliedig ar nifer y disgyblion a chyfleusterau'r ysgol newydd.

6.10 Trefniadau Derbyn

Y Cyngor Sir yw'r Awdurdod Derbyn ar gyfer Ysgol Gynradd Gors-las. 13 yw'r nifer derbyn presennol. Os gweithredir y cynnig bydd y nifer derbyn yn cynyddu i 30. Os oes gennych unrhyw ymholiadau ynghylch derbyn disgybl i'r ysgol mae manylion cyswllt Awdurdod Lleol Sir Gaerfyrddin fel a ganlyn:

Yr Uned Llywodraethu a Derbyn i Ysgolion
Awdurdod Lleol Sir Gaerfyrddin
Yr Adran Addysg a Phlant,
Adeilad 2,
Y Prif Adeilad,
Parc Dewi Sant,
Caerfyrddin. SA31 3HB

Rhif ffôn: 01267 246449

Rhif Ffacs : 01267 246746

E-bost: rjonesevans@sirgar.gov.uk

6.11 Asesiad o'r Effaith ar Gludiant

Ar sail data CYBLD Ionawr 2017 ynghylch cyfeiriadau disgyblion roedd 78 (cyfanswm Nifer y Disgyblion ac oedran meithrin) yn mynychu Ysgol Gynradd Gors-las ac yn byw yn y dalgylch, ac roedd 44 o ddisgyblion yn byw y tu allan i'r dalgylch. Rhaid nodi hefyd, yn seiliedig ar ddata cyfeiriadau CYBLD Ionawr 2017, roedd 140 o ddisgyblion yn byw yn nalgylch Gorslas yn mynychu ysgolion eraill.

Ar sail data CYBLD Ionawr 2017 ynghylch cyfeiriadau disgyblion, roedd disgyblion ar gyfartaledd yn teithio 2.8 milltir i gyrraedd safle presennol Ysgol Gynradd Gors-las gydag amser teithio cyfartalog o 7.1 munud. Gan ddefnyddio'r un data, byddai disgyblion ar gyfartaledd yn teithio 2.9 milltir i gyrraedd y safle newydd gydag amser teithio cyfartalog o 7.2 munud. Yn seiliedig ar yr asesiad hwn, byddai ychydig o gynnydd o 0.1 milltir o bellter teithio a 0.1 munud o ran amser teithio ar gyfer y disgyblion.

6.12 Asesiad o'r Effaith ar y Gymuned

Gweler Atodiad A o'r ddogfen ymgynghori hon, i gael manylion llawn am yr Asesiad o'r Effaith ar y Gymuned a gynhaliwyd.

6.13 Asesiad o'r Effaith ar y Gymraeg

Gweler Atodiad B o'r ddogfen ymgynghori hon lle ceir manylion llawn am yr Asesiad o'r Effaith ar y Gymraeg a gynhaliwyd.

6.14 Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb

Gweler Atodiad C o'r ddogfen ymgynghori hon, lle ceir manylion am yr Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb a gynhaliwyd.

7. Y Broses Statudol

Y Broses Ymgynghori

Bydd yr ymgynghori ynghylch y cynnig hwn yn dilyn y canllawiau a bennwyd gan Lywodraeth Cymru yn unol â'r hyn a nodwyd yn y Côd Trefniadaeth Ysgolion (2013).

Â phwy arall y byddwn ni'n ymgynghori?

Anfonir y ddogfen hon at y partïon canlynol sydd â diddordeb, sef:

| | |
|--|---|
| Staff (Addysgu ac Ategol) – Ysgol Gynradd Gors-las | Cyfarwyddwyr Addysg – yr holl Awdurdodau Cyfagos |
| Llywodraethwyr a Rhieni / Gwarcheidwad – Ysgol Gynradd Gors-las | Cyfarwyddwr Addysg Esgobaethol yr Eglwys yng Nghymru a'r Eglwys Gatholig Rufeinig |
| Cynghorwyr Sir Lleol | Estyn |
| Cynghorwyr Cymuned – Cyngor Cymuned Gorslas | Consortiwm Trafnidiaeth Rhanbarthol |
| Aelod Cynulliad (AC) / Aelodau Rhanbarthol / Aelodau Seneddol (AS) | * Yr Ysgolion Cynradd ac Uwchradd Cyfagos yn Sir Gaerfyrddin |
| Gweinidogion Llywodraeth Cymru | Undeb Cenedlaethol yr Athrawon (NUT) |
| Partneriaid AAA | Undeb Cenedlaethol Athrawon Cymru (UCAC) |
| Is-adran Anghenion Addysgol Arbennig yr Awdurdod Lleol | Cymdeithas Genedlaethol y Prifathrawon (NAHT) |
| ERW – Ein Rhanbarth ar Waith | UNSAIN |
| | Undeb VOICE |
| Teuluoedd yn Gyntaf Sir Gaerfyrddin | Cymdeithas Genedlaethol yr Ysgolfeistri ac Undeb yr Athrawesau (NASUWT) |
| Dechrau'n Deg | |
| Gofal Plant / Y Blynyddoedd Cynnar | Cymdeithas yr Athrawon a'r Darlithwyr (ATL) |
| Partneriaeth Cymunedau yn Gyntaf | Undeb y GMB |
| Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus | Undeb UNITE |
| Y Comisiynydd Heddlu a Throseddau Lleol | Meithrinfa Cae'r Ffair |
| Comisiynydd y Gymraeg | Cylch Meithrin Cefneithin Gors-las |

* Anfonwyd y ddogfen ymgynghori at Bennaeth a Chadeirydd y Llywodraethwyr ysgolion cynradd cymunedol Maesybont, Cefneithin, Cross Hands, Saron a Penygroes ac Ysgolion Uwchradd Maes y Gwendraeth ac Ysgol Bro Dinefwr.

Ymgynghori â'r Disgyblion

Bydd cyfle i ddisgyblion Ysgol Gynradd Gors-las gymryd rhan yn y broses ymgynghori yn ystod sesiwn a gynhelir yn yr ysgol gyda'r Ymgynghorydd Her.

Bydd y wybodaeth a gesglir o'r sesiynau ymgynghori â'r disgyblion yn rhan o'r adroddiad ymgynghori a gyflwynir i'r Bwrdd Gweithredol i'w ystyried yn dilyn y cyfnod ymgynghori.

Y Cyfnod Ymgynghori

Mae'r cyfnod ymgynghori ar gyfer y cynnig hwn yn dechrau ar 6 Tachwedd 2017 ac yn dod i ben ar 17 Rhagfyr 2017. Yn ystod y cyfnod hwn gallwch ofyn cwestiynau a mynegi eich barn drwy ysgrifennu llythyr neu lenwi'r ffurflen ymateb amgaeedig yn Atodiad E. Dylid anfon llythyrau a ffurflenni ymateb i'r cyfeiriad canlynol heb fod yn hwyrach na chanol dydd ar 17 Awst 2017.

Mr Gareth Morgans, Cyfarwyddwr Addysg a Gwasanaethau Plant,
Adeilad 2. Parc Dewi Sant, Heol Ffynnon Job, Caerfyrddin, SA31 3HB
Neu drwy e-bost at: aaprma@carmarthenshire.gov.uk

Gall ymgynghoreion gyflwyno'u sylwadau o blaid neu yn erbyn cynnig. Ni fydd yr ymatebion a geir yn ystod y cyfnod ymgynghori yn cael eu hystyried yn wrthwynebiadau statudol. Os dymuna ymgynghoreion wrthwynebu, bydd angen iddynt wneud hynny'n ysgrifenedig yn ystod y cyfnod gwrthwynebu statudol y manylir arno isod.

Ystyried eich Sylwadau

O fewn 13 wythnos ar ôl 17 Rhagfyr 2017 bydd adroddiad ymgynghori yn cael ei gyhoeddi ar wefan Cyngor Sir Caerfyrddin. Bydd copïau caled o'r adroddiad hefyd ar gael ar gais. Bydd yr adroddiad yn crynhoi'r materion a godwyd gan yr ymgynghoreion ac yn rhoi ymateb Cyngor Sir Caerfyrddin i'r materion hyn. Hefyd bydd yr adroddiad yn cynnwys barn Estyn ynghylch y cynnig a manylion am yr ymgynghori a gynhaliwyd â'r disgyblion.

Bydd Bwrdd Gweithredol Cyngor Sir Caerfyrddin yn ystyried yr adroddiad ymgynghori ac yn penderfynu a ydynt am fynd ymlaen â'r cynnig ai peidio.

Os yw'r Bwrdd Gweithredol yn penderfynu mynd ymlaen â'r cynnig mae'n rhaid i Gyngor Sir Caerfyrddin gyhoeddi hysbysiad statudol.

Hysbysiad Statudol

Bydd yr hysbysiad statudol yn cael ei gyhoeddi ar wefan Cyngor Sir Caerfyrddin a'i osod yn Ysgol Gynradd Gors-las. Bydd copïau o'r hysbysiad ar gael i'r ysgol eu

dosbarthu i'r disgyblion, i'r rhieni, i'r gwarcheidwaid, ac i'r staff (gall yr ysgol ddosbarthu'r hysbysiad drwy e-bost hefyd.)

Bydd yr hysbysiad yn amlinellu manylion y cynnig ac yn gwahodd unrhyw un sy'n dymuno gwrthwynebu i wneud hynny'n ysgrifenedig cyn pen 28 o ddiwrnodau. Os derbynnir gwrthwynebiadau cyhoeddir adroddiad ynghylch y gwrthwynebiadau ar wefan Cyngor Sir Caerfyrddin. Bydd copïau caled o'r adroddiad hefyd ar gael ar gais. Bydd yr adroddiad yn crynhoi'r materion a godwyd ac yn rhoi ymateb Cyngor Sir Caerfyrddin i'r gwrthwynebiadau hynny.

Penderfynu ar y Cynnig

Cyngor Sir Caerfyrddin fydd yn penderfynu ar y cynnig. Gall y Cyngor Sir benderfynu cymeradwyo'r cynnig, gwrthod y cynnig neu gymeradwyo'r cynnig â newidiadau. Wrth wneud hynny, bydd y Cyngor Sir yn ystyried unrhyw wrthwynebiadau statudol a ddaeth i law.

Rhoi gwybod am y penderfyniad

Ar ôl penderfynu ynghylch y cynigion rhoddir gwybod i'r holl bartïon sydd â diddordeb bod y penderfyniad ar gael a fydd yn cael ei gyhoeddi'n electronig ar wefan Cyngor Sir Caerfyrddin.

Amserlen y Broses Statudol

Bydd y broses a'r amserlen statudol fel a ganlyn:

| | |
|-----------------|--|
| 6 Tachwedd 2017 | Dosbarthu'r Ddogfen Ymgynghori hon i bartïon penodol a phartïon eraill sydd â diddordeb. |
| 17 Rhagfyr 2017 | Y dyddiad cau ar gyfer derbyn sylwadau ar y cynnig i'r Adran Addysg a Phlant. |
| | <p>O fewn 13 wythnos ar ôl 17 Rhagfyr 2017 bydd Adroddiad Ymgynghori yn cael ei roi gerbron y Bwrdd Gweithredol a'i gyhoeddi ar wefan Cyngor Sir Caerfyrddin. Penderfynu mynd ymlaen i gyhoeddi'r Hysbysiad Statudol. NEU fod y cynnig yn dod i ben</p> <p>Os gwneir y penderfyniad i fynd ymlaen â'r mater yna cyhoeddir hysbysiad statudol. Bydd yr hysbysiad yn amlinellu manylion y cynnig ac fe'i cyhoeddir ar wefan y Cyngor a'i arddangos ger mynedfa'r ysgol a'r ysgolion sy'n destun y cynigion. Bydd copïau o'r hysbysiad ar gael i'r ysgol eu dosbarthu i'r rhieni, i'r gwarcheidwaid, ac i'r staff. Ar ôl cyhoeddi'r hysbysiad caniateir cyfnod o 28 diwrnod pryd y gwahoddir gwrthwynebiadau ysgrifenedig ffurfiol.</p> |

| | |
|-------------|--|
| | Bydd yr hysbysiad statudol yn rhoi manylion ynghylch y modd y gallwch gofnodi eich gwrthwynebiadau i'r cynnig. |
| Ebrill 2018 | Diwedd y cyfnod hysbysu ffurfiol o 28 diwrnod ar gyfer gwrthwynebiadau. Y Cyngor Sir fydd yn penderfynu ar y cynnig. Gall y Cyngor Sir benderfynu cymeradwyo'r cynnig, gwrthod y cynnig neu gymeradwyo'r cynnig gyda newidiadau, ac wrth benderfynu bydd y Cyngor Sir yn rhoi ystyriaeth i unrhyw wrthwynebiadau a ddaeth i law. |
| Gorff 2018 | Y dyddiad olaf o ran rhoi gwybod i'r rhieni am y bwriad i roi'r cynnig ar waith. Ar ôl penderfynu ynghylch y cynigion rhoddir gwybod i'r holl bartïon sydd â diddordeb bod y penderfyniad ar gael a fydd yn cael ei gyhoeddi'n electronig ar wefan Cyngor Sir Caerfyrddin. |

Atodiad A – Asesiad o'r Effaith ar y Gymuned

Dadansoddiad o'r Dalgylch – Data CYBLD Ionawr 2017

Mae gan bob ysgol ardal y mae'n ei gwasanaethu, a adwaenir fel dalgylch yr ysgol. Disgwylir i bob ysgol ddarparu lle ar gyfer disgyblion sy'n byw yn ei dalgylch ac mae'n ofynnol i ysgolion roi sylw i'r galw parhaus hwn.

Mae'r mwyafrif o'r rhieni yn anfon eu plentyn i'w hysgol leol ond mae gan rieni hawl i fynegi eu bod yn dewis ysgolion eraill.

Plant sy'n mynychu'r ysgol sy'n byw yn y dalgylch /tu allan i'r dalgylch

Ar sail data CYBLD Ionawr 2017 ynghylch cyfeiriadau disgyblion, roedd y data daearyddol ynghylch gwasgariad disgyblion dalgylch Ysgol Gynradd Gors-las yn dangos bod 78, o'r 122 o ddisgyblion oedd ar gofrestr yr ysgol, yn byw yn y dalgylch a bod y 44 disgybl arall yn dod o'r tu allan i'r dalgylch.

Y Plant yn y dalgylch sy'n mynychu ysgolion eraill.

Ar sail data CYBLD Ionawr 2017, roedd 140 o ddisgyblion yn byw yn y dalgylch ar gyfer Ysgol Gynradd Gors-las ac yn mynychu ysgolion eraill fel a ganlyn.

Gan gymryd i ystyriaeth y 78 o ddisgyblion sy'n byw yn y dalgylch sy'n mynychu Ysgol Gynradd Gors-las, a'r 140 o ddisgyblion sy'n byw yn y dalgylch ond sy'n mynychu ysgolion eraill, ceir cyfanswm o 218 o ddisgyblion yn byw yn y dalgylch ar gyfer Ysgol Gynradd Gors-las.

Cyfleusterau eraill y mae'r ysgol yn eu darparu e.e. clwb /grŵp chwarae

Mae'r ysgol yn cynnal cyfarfodydd Cyngor Cymuned Gors-las pan fo angen.

Cyfleusterau neu wasanaethau eraill y mae'r ysgol yn eu darparu e.e. clybiau ar ôl ysgol / llyfrgell gymunedol

Mae'r ysgol ar hyn o bryd yn cynnal clwb brechwast i ddisgyblion yn ystod dyddiau'r wythnos rhwng 8-8.30am.

Mae'r disgyblion hefyd yn elwa ar sawl clwb ar ôl ysgol, sy'n cael eu cynnal ar nosweithiau amrywiol yn ystod yr wythnos. Mae sefydliad lleol, Menter Cwm Gwendraeth yn cynnal "Clwb Joio" ar nos Lun rhwng 3.30-5 pm. Mae'r "Clwb Joio" yn cynnig awr a hanner o weithgareddau penodol i'r disgyblion, sy'n ehangu'r cyfleoedd sydd ar gael ar gyfer disgyblion rhwng 4-11 oed i gymdeithasu drwy gyfrwng y Gymraeg y tu allan i oriau ysgol. Mae staff yr ysgol hefyd yn cynnal clwb chwaraeon ddydd Mawrth a Chlwb yr Urdd ddydd Mercher. Ddydd lau, mae staff yr ysgol yn cynnal clwb ar ôl ysgol, lle mae'r gweithgareddau'n amrywio o wythnos i wythnos. Yn y clwb hwn, mae'r disgyblion yn elwa ar ddatblygu sgiliau megis garddio, coginio, Gwyddoniaeth a TG.

Effaith ar y Gymuned

Os caiff ei gymeradwyo, bydd y cynnig yn caniatáu mwy o gyfleoedd i gael mynediad at addysg cyfrwng Cymraeg yn ardal Gors-las, yn unol â pholisïau cenedlaethol a lleol. Bydd yr ardal ar gyfer darparwr meithrinfa allanol yn caniatáu i ddisgyblion y blynyddoedd cynnar i gael mynediad i ddarpariaeth feithrin o fewn amgylchedd yr ysgol a fydd yn cryfhau'r berthynas a'r cysylltiadau rhwng y darparwr allanol a'r ysgol a fydd yn sicrhau trosglwyddiad hwylus rhwng y cyfleusterau.

O ganlyniad i'r cynllun ei hun, bydd adeilad newydd yr ysgol o fudd sylweddol i gymuned Gors-las drwy ddefnydd o'r cyfleusterau megis y maes parcio, y cae chwaraeon, MUGA - man chwarae amldefnydd a'r brif neuadd y gellid ei defnyddio ar gyfer nifer o weithgareddau.

Atodiad B – Aseiad o'r Effaith ar y Gymraeg

Gweledigaeth Cyngor Sir Caerfyrddin yw darparu gwasanaeth a fydd yn sicrhau mynediad i gyfleoedd addysgol o ansawdd uchel i bob plentyn, person ifanc ac oedolyn, ac felly yn eu galluogi i gyflawni eu llawn botensial yng nghyd-destun natur ddwyieithog unigryw'r sir hon.

Mae'r cynnig hwn yn ategu gweledigaeth ac amcanion y Cyngor ynghylch addysg Cyfrwng Cymraeg, yn unol â'r hyn a nodwyd yng Nghynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg (WESP) Sir Gaerfyrddin, 2014–2017. Bydd y cynnig yn rhoi mwy o gyfleoedd i gael mynediad i addysg cyfrwng Cymraeg yn ardal Gors-las gan sicrhau parhad ieithyddol o'r sector meithrin ar hyd y cyfnodau allweddol i'r sector uwchradd fel bod pob disgybl yn datblygu i fod yn rhugl a hyderus yn y Gymraeg a'r Saesneg.

Categori Iaith

Mae Ysgol Gynradd Gors-las yn cael ei chategoreiddio yn ysgol gynradd cyfrwng Cymraeg. Fel y nodwyd yn y llyfryn derbyn i Ysgolion – Gwybodaeth i Rieni mae hyn yn golygu yn y Cyfnod Sylfaen, y caiff disgyblion eu haddysgu drwy gyfrwng y Gymraeg, ac yn CA2, mae o leiaf 70% o'r addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg. Cymraeg yw'r iaith gyfathrebu â disgyblion ac iaith gwaith pob dydd yr ysgol.

Safonau

Yn y Cyfnod Sylfaen, caiff disgyblion eu hasesu mewn gwahanol feysydd dysgu. Yn seiliedig ar ddata 2016, roedd 83.3% o ddisgyblion wedi cyflawni o leiaf Deilliant 5 mewn "Sgiliau Iaith, Llythrennedd a Chyfathrebu yn y Gymraeg, ac roedd 33.3% o'r disgyblion wedi cyflawni o leiaf Deilliant 6. Yng Nghyfnod Allweddol 2, caiff disgyblion eu hasesu ym mhob un o'r pynciau craidd. Yn seiliedig ar ddata 2016, roedd 70.6% o'r disgyblion wedi cyflawni o leiaf Lefel 4 mewn Cymraeg Iaith Gyntaf.

Gweithgareddau ar ôl ysgol sy'n rhoi cyfleoedd ychwanegol i ddefnyddio'r Gymraeg

Mae'r disgyblion yn elwa ar sawl clwb ar ôl ysgol, sy'n cael eu cynnal ar nosweithiau amrywiol yr wythnos yn yr ysgol. Mae sefydliad lleol, Menter Cwm Gwendraeth yn cynnal "Clwb Joio" ar nos Lun rhwng 3.30-5 pm. Mae'r "Clwb Joio" yn cynnig awr a hanner o weithgareddau penodol i'r disgyblion, sy'n ehangu'r cyfleoedd sydd ar gael ar gyfer disgyblion rhwng 4-11 oed i gymdeithasu drwy gyfrwng y Gymraeg y tu allan i oriau ysgol. Mae staff yr ysgol hefyd yn cynnal clwb yr Urdd ddydd Mercher.

Atodiad C – Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb

Cyngor Sir Caerfyrddin Asesu Effaith

Deddf Cydraddoldeb 2010

Mae Deddf Cydraddoldeb 2010 (y Ddeddf) yn dwyn ynghyd y deddfau gwrth-wahaniaethu blaenorol ac yn rhoi un Ddeddf sengl yn eu lle. Mae'n symleiddio ac yn cryfhau'r gyfraith, yn dileu anghysonderau ac mae'n ei gwneud yn haws i bobl ei deall a chydymffurfio â hi. Daeth y rhan fwyaf o'r Ddeddf i rym ar 1 Hydref 2010.

Mae'r Ddeddf yn cynnwys dyletswydd cydraddoldeb newydd sector cyhoeddus (y 'ddyletswydd gyffredinol'), sy'n cymryd lle'r dyletswyddau unigol yn ymwneud â chydaddoldeb o ran hil, anabledd a rhywedd. Daeth hon i rym ar 5 Ebrill 2011.

Beth yw'r ddyletswydd gyffredinol?

Nod y ddyletswydd gyffredinol yw sicrhau bod awdurdodau cyhoeddus, a'r rhai sy'n cyflawni swyddogaeth gyhoeddus, yn ystyried sut y gallant gyfrannu'n gadarnhaol at gymdeithas decach drwy hybu cydraddoldeb a chysylltiadau da yn eu gweithgareddau o ddydd i ddydd. Mae'r ddyletswydd yn sicrhau bod ystyriaethau cydraddoldeb yn rhan annatod o ddylunio polisiau a darparu gwasanaethau a'u bod yn cael eu hadolygu'n barhaus. Bydd hyn yn sicrhau gwell canlyniadau i bawb.

Mae'r dyletswyddau yn rhwymedigaethau cyfreithiol. Os na chyflawnir y dyletswyddau, gall arwain at her gyfreithiol yn erbyn awdurdodau.

O dan y ddeddfwriaeth gydraddoldeb, mae dyletswyddau cyfreithiol ar awdurdodau cyhoeddus i roi 'sylw priodol' i'r angen am ddileu gwahaniaethu ac i hybu cydraddoldeb o ran hil, anabledd a rhywedd, gan gynnwys ailbennu rhywedd, yn ogystal â hybu cysylltiadau hiliol da. Mae Deddf Cydraddoldeb 2010 yn cyflwyno dyletswydd newydd sector cyhoeddus sy'n ymestyn ei chwmpas i oedran, cyfeiriadedd rhywiol, beichiogrwydd a mamolaeth, a chrefydd neu gred. Mae'r gyfraith yn mynnu bod y ddyletswydd hon i roi 'sylw priodol' yn cael ei dangos yn y broses gwneud penderfyniadau. Mae'n bwysig hefyd nodi fod awdurdodau cyhoeddus sy'n

ddarostyngedig i'r dyletswyddau cydraddoldeb yn debygol hefyd o fod yn ddarostyngedig i'r rhwymedigaethau o dan y Ddeddf Hawliau Dynol ac felly mae'n ddoeth ystyried fel rhan o'r un broses yr effaith bosibl y gallai penderfyniadau ei chael ar hawliau dynol.

Dull Sir Gaerfyrddin o ran yr Effaith ar Gydraddoldeb

Er mwyn sicrhau bod y Cyngor yn ystyried yr effaith bosibl y bydd ei bolisiau a'i arferion arfaethedig yn ei chael ar gydraddoldeb, ac er mwyn dangos tystiolaeth ein bod wedi gwneud hynny, bydd angen i bob cynnig gael ei ategu gan yr Asesiad o Effaith ar Gydraddoldeb atodedig. Os yw'r asesiad hwn yn clustnodi effaith sylweddol, mae'n bosibl y bydd angen rhagor o fanylion.

Cyhoeddi adroddiad ynghylch asesiadau


Os yw'n amlwg o'r asesiad fod yr effaith debygol ar allu'r Awdurdod i gyflawni'r ddyletswydd gyffredinol yn un sylweddol, bydd rhaid iddo gyhoeddi adroddiad.

Asesiadau Cychwynnol a Manwl o'r Effaith ar Gydraddoldeb

Mae'r Asesiad Cychwynnol o'r Effaith ar Gydraddoldeb (atodiad 1) yn ddull syml a chyflym o asesu effaith polisi, swyddogaeth, gweithdrefn, penderfyniad, gan gynnwys toriadau ariannol, ar un neu ragor o'r nodweddion gwarchoddedig.

Mae'n rhaid i'r Rheolwr Gwasanaeth sy'n gyfrifol am y polisiau, y swyddogaethau, y gweithdrefnau a'r penderfyniadau ariannol newydd neu ddiwygiedig perthnasol, gynnal o leiaf Asesiad Cychwynnol o'r Effaith ar Gydraddoldeb, a chwblhau Asesiad manwl o'r Effaith ar Gydraddoldeb lle bo hynny'n berthnasol (atodiad 2). Mae'n rhaid atodi'r Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb yn bapur cefndir gyda'r adroddiadau i'r Bwrdd Gweithredol ac i'r Pwyllgor Craffu.

Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb - Y broses sydd i'w dilyn lle nodwyd goblygiadau o ran Adnoddau Dynol



Templed ar gyfer Aseiad Manwl o'r Effaith ar Gydraddoldeb Atodiad 1

| | | |
|---|--|--|
| Yr Arddan: Addysg a Phlant | Cwblhawyd gan (arweinydd): Sara Griffiths | Dyddiad yr aseiad cychwynnol: Mehefin 2017 Dyddiadau adolygu: I'W GADARNHAU |
| Y maes a asesir: (h.y. enw'r polisi, y swyddogaeth, y gweithdrefn, yr arfer neu benderfyniad ariannol) | Y cynllun yw darparu adeilad ysgol newydd gyda chyfleusterau yr 21 ^{ain} ganrif ar gyfer Ysgol Gynradd Gors-las. Fel rhan o'r cynllun hwn, y cynnig yw cynyddu nifer y lleoedd yn yr ysgol o 110 i 210. | |
| Ydy'r swyddogaeth/polisi, gweithdrefn, arfer neu benderfyniad dan sylw yn bodoli'n barod neu a yw'n un newydd? | Cynnig ynghylch Ad-drefnu Ysgolion – Rhaglen Moderneiddio Addysg | |
| Pa dystiolaeth a ddefnyddiwyd wrth lunio'r aseiad a'r polisi? (rhestr yn unig) | | |
| <ul style="list-style-type: none"> • Rhaglen Ysgolion yr 21^{ain} Ganrif • Y Rhaglen Moderneiddio Addysg • Côd Trefniadaeth Ysgolion 2013 • Data CYBLD 2016 | | |

| | | | |
|---|--|--|--|
| 1. Disgrifiwch nodau, amcanion neu ddibenion y swyddogaeth/polisi, arfer, gweithdrefn neu benderfyniad arfaethedig a phwy fydd yn cael budd ohonynt. | Nod y cynllun yw rhoi adeilad ysgol newydd i ddisgyblion a staff Ysgol Gynradd Gors-las a chyfleusterau sy'n addas ar gyfer addysgu a dysgu yn yr 21 ^{ain} Ganrif. Bydd y cynnydd yn nifer y lleoedd o fudd i'r ysgol drwy fynd i'r afael â'r problemau a gafwyd o ran nifer y lleoedd yn ystod y blynyddoedd diwethaf a bydd hefyd yn sicrhau y gall yr ysgol ymdopi â'r galw yn y dyfodol. Bydd darparu lle i feithrinfa allanol hefyd yn cryfhau'r berthynas rhwng darparwyr y feithrinfa a'r ysgol a fydd yn helpu i sicrhau cyfnod pontio hwylus rhwng y cyfleusterau. | | |
| Mae'n ofynnol o dan Ddyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus fod y Cyngor yn rhoi "sylw priodol" i'r angen i wneud y canlynol:- | 2. Faint o effaith fydd ar bob grŵp/nodwedd warchoddedig o ran tri nod y ddyletswydd? Nodwch a fydd | 3. Clustnodwch y risg neu'r effaith gadarnhaol bosibl ar gyfer pob grŵp/nodwedd warchoddedig? | 4. Os oes effaith negyddol anghymesur, pa ffactorau lliniarol ydych wedi'u hystyried? |

| | | | | | | |
|--------------------------|---------------------------|---|---|-----------|--|--|
| | | (1) dileu gwahaniaethu, aflonyddu a fictimeiddio anghyfreithlon; | yn cael effaith fawr, effaith ganolig, effaith fach neu ddim effaith o gwbl. | Y Risgiau | Yr Effeithiau Cadarnhaol | |
| | | (2) hybu cyfle cyfartal rhwng gwahanol grwpiau ; a | | | | |
| | | (3) meithrin perthynas dda rhwng gwahanol grwpiau (gweler y nodiadau esboniadol) | | | | |
| Nodweddion gwarchoddedig | Oed | Effaith fach | | | Bydd y cynnig yn darparu mynediad i ddisgyblion oed meithrin i ddarpariaeth feithrin yn adeilad yr ysgol. | |
| | Anabledd | Effaith fach | | | Bydd adeilad newydd yr ysgol yn cydymffurfio'n llwyr â'r Ddeddf Gwahaniaethu ar sail Anabledd gan sicrhau hygrychedd llawn i bawb. | |
| | Ailbennu rhywedd | Dim effaith o gwbl | Niwtral | | | |
| | Hil | Dim effaith o gwbl | Niwtral | | | |
| | Crefydd/Cred | Dim effaith o gwbl | Niwtral | | | |
| | Beichiogrwydd a mamolaeth | Dim effaith o gwbl | Niwtral | | | |
| | | | | | | |

| | | | | |
|----------------------|--------------------|--|---|--|
| Cyfeiriadedd Rhywiol | Dim effaith o gwbl | Niwtral | | |
| Rhyw | Dim effaith o gwbl | Niwtral | | |
| Y Gymraeg | Effaith fach | | Bydd y cynnydd yn nifer y lleoedd yn cynnig mwy o gyfleoedd i gael mynediad at addysg cyfrwng Cymraeg yn ardal Gors-las yn unol â pholisïau cenedlaethol a lleol. | |
| Unrhyw faes arall | Effaith fach | Gallai'r cynnydd yn nifer y lleoedd yn yr ysgol gael effaith ar ysgolion ardal dalgylch Gors-las . | | |

5. A fu unrhyw ymgynghori/ymgysylltu o ran y nodweddion gwarchoddedig priodol?

YDW NAC YDW

Mae'r Swyddog Prosiect wedi cysylltu â Phennaeth, Staff a Rhieni Ysgol Gynradd Gors-las o ran y cynnig. Mae Aelodau Lleol hefyd wedi cael gwybodaeth lawn am y cynllun. Cynhaliwyd ymgynghoriad â'r Cyngor Cymuned a'r trigolion lleol ynghylch lleoliad adeilad newydd yr ysgol.

6. Pa gam/gamau a gymerwch i leihau unrhyw effeithiau negyddol anghymesur, os bydd rhai? Sicrhau bod yr holl randdeiliaid allweddol yn cael gwybodaeth lawn drwy gydol y broses statudol.

7. Caffael

Ar ôl crynhoi'r dystiolaeth ar gyfer yr asesiad hwn, a oes unrhyw oblygiadau o ran caffael i'r gweithgaredd, y cynnig neu'r gwasanaeth? AMH.

Gofynnir ichi gynnwys canfyddiadau'r asesiad hwn yn eich cynllun caffael. Cysylltwch â'r Uned Caffael Corfforaethol i gael rhagor o gyngor.

8. Adnoddau Dynol

Ar ôl crynhoi'r dystiolaeth ar gyfer yr asesiad hwn, a oes unrhyw oblygiadau o ran adnoddau dynol i'r gweithgaredd, y cynnig neu'r gwasanaeth? Gan y bydd cynnydd yn nifer y lleoedd, mae'n bosibl y bydd angen staff ychwanegol. Fodd bynnag, rhoddir sylw i hyn wrth i'r cynllun ddatblygu, a byddwn yn ymgynghori'n llawn ag Adnoddau Dynol.

9. Ar sail y wybodaeth yn adran 2 a 6, a ddylai Aseiad Manwl o Effaith gael ei gynnal o ran y swyddogaeth/y polisi/y weithdrefn/yr arfer neu'r penderfyniad? (argymhellir bod hyn yn digwydd os oes mwy nag un effaith fawr wedi'i nodi yn adran 2)

YDY

Na

Cymeradwywyd gan:

Andi Morgan

Dyddiad: Awst 2017

Pennaeth y Gwasanaeth

Atodiad D – Proffil Ardal Ward Gors-las

Yr Adain Polisi, Ymchwil a Gwybodaeth, Cyngor Sir Caerfyrddin, Mai 2017


Cynghorwyr (Pleidlais Etholiadol 2017, y ganran a bleidleiodd = 47.28%): Darren Price ac Aled Owen (Plaid Cymru).

Etholwyr (Rhagfyr 2016): 3,586

Poblogaeth: 4,301 (2015 Amcangyfrifon Poblogaeth Canol blwyddyn, Swyddfa Ystadegau Gwladol)

Cynulliad Cenedlaethol Cymru ac Etholaeth Seneddol Cynulliad yn y DU : Dwyrain Sir Gaerfyrddin a Dinefwr

Cyfleusterau dan berchenogaeth y Cyngor: Ysgol Gynradd Cefneithin. Ysgol Gynradd Drefach. Ysgol Gynradd Gors-las. Ysgol, Ysgol Gyfun Maes y Gwendraeth Cefneithin, Ysgol Maes y Gwendraeth Drefach, Parc Gwledig Llyn Llech Owain, Toiledau Parc Gors-las.



© Hawlfraint y Goron a hawliau cronfa ddata 2017 Arolwg Ordnans 100023377
© Crown copyright and database rights 2017 Ordnance Survey 100023377


Lleoliad: Tua 20km o dref Caerfyrddin

- ⇒ Dynodiadau adfywio: Cynllun Datblygu Gwledig 2007-2013 - Ward Cymwys
- ⇒ Ardal: 16.51km²
- ⇒ Dwysedd Poblogaeth: 261 o bobl fesul km²
- ⇒ Newid yn y boblogaeth: 2001-2015: +584 (+15.7%)
- ⇒ Prif Gyflogwyr: Cyngor Sir Caerfyrddin (ysgolion a hamdden)

YSTADEGAU POBLOGAETH Amcangyfrifon Canol Blwyddyn 2015

| Oed Strwythur | Poblogaeth Gors-las | Gors-las % | Sir Gaerfyrddin % |
|-----------------|---------------------|------------|-------------------|
| Oed: 0-4 | 245 | 5.7 | 5.4 |
| 5-14 | 437 | 10.2 | 11.2 |
| 15-24 | 448 | 10.4 | 11.2 |
| 25-44 | 952 | 22.1 | 21.7 |
| 45-64 | 1273 | 29.6 | 27.8 |
| 65-74 | 518 | 12.0 | 12.7 |
| 75+ | 428 | 10.0 | 10.0 |
| Cyfanswm | 4,301 | 100 | 100 |

Y Ffynhonnell: Crynhoi Ardaloedd Cynnyrch Ehangach Haen Is (LSOA) Amcangyfrifon Poblogaeth Ardal Fach 2015, Swyddfa Ystadegau Gwladol (ONS)



- ⇒ Y 9^{fed} ward uchaf o ran poblogaeth yn Sir Gaerfyrddin, a'r 20^{fed} o ran y dwysedd poblogaeth uchaf.
- ⇒ Mae cyfran uchaf y boblogaeth dros 45 oed.
- ⇒ Cyfran ychydig yn uwch o bobl â salwch tymor hir cyfyngol
- ⇒ Cyfran uwch o 20% o siaradwyr Cymraeg na chyfartaledd Sir Gaerfyrddin.

Data Cyfrifiad 2011


| Poblogaeth: Ffeithiau Allweddol | Gors-las | Gors-las % | Sir Gaerfyrddin |
|--|----------|------------|-----------------|
| Pobl: geni yng Nghymru | 3211 | 79.0 | 76.0 |
| Ganwyd y tu allan i'r DU | 87 | 2.2 | 4.1 |
| mewn grwpiau ethnig nad ydynt yn Wyn | 39 | 0.9 | 1.9 |
| gyda salwch tymor hir cyfyngol | 1082 | 26.7 | 25.4 |
| heb unrhyw gymwysterau (rhwng 16-74 oed) | 853 | 25.1 | 26.8 |
| gyda chymwysterau lefel uwch (rhwng 16-74 oed) | 878 | 25.8 | 23.9 |
| Yn gallu siarad Cymraeg | 2523 | 64.1 | 43.9 |

| Preswylwyr eich Cartref | Gors-las | Gors-las % | Sir Gaerfyrddin |
|---|----------|------------|-----------------|
| Cyfanswm Aelwydydd (Cyfartaledd Maint Aelwydydd) | 1735 | (2.3) | (2.3) |
| Math/maint yr aelwyd: un person: pensïynwyr | 285 | 16.4 | 14.8 |
| un person: arall | 212 | 12.2 | 15.4 |
| un teulu: holl bensïynwyr | 181 | 10.4 | 9.8 |
| un teulu: pâr priod | 658 | 38.0 | 34.1 |
| un teulu: cwpwl sy'n byw gyda'i gilydd | 138 | 7.9 | 8.7 |
| un teulu: unig riant | 169 | 9.7 | 11.3 |
| un teulu: arall | 92 | 5.4 | 5.9 |


TAI

Mae tai yr ardal yn cynnwys i raddau helaeth tai ar wahân a thai pâr, sydd gyda'i gilydd dros 90% o'r tai. Y gyfran leiaf o dai yw carafannau neu lety dros dro symudol arall. Mae'r ward yn cynnwys 222 o eiddo sy'n berchen i'r awdurdod lleol a 24 o dai sy'n perthyn i Gymdeithasau Tai.

Mathau o Dai



| Deiliadaeth aelwydydd | % |
|--|------|
| Berchen yn llwyr | 41.5 |
| Morgais | 36.1 |
| Rhannu perchenogaeth | 0.3 |
| Ar Rent - Awdurdod Lleol | 12.8 |
| Ar Rent - Landlord Cymdeithasol Cofrestredig | 1.4 |
| Ar Rent - Landlord preifat | 5.7 |
| Ar Rent - Arall | 1.2 |
| Yn byw heb dalu rhent | 1.1 |



FFACTORAU ECONOMAIDD-GYMDEITHASOL

- ⇒ Amcangyfrifir mai incwm canolrifol aelwyd yn Gors-las, yn seiliedig ar ddata 'PayCheck' CACI 2016, yw £27,288 sydd yn y 11^{eg} safle uchaf (o wardiau 58) yn Sir Gaerfyrddin a 12.7% yn uwch na chanolrif Sir Gaerfyrddin o £23,825.
- ⇒ Dengys gwybodaeth proffil cymdeithasol lefel sy'n uwch na'r cyfartaledd o bobl mewn galwedigaethau rheoli a galwedigaethau gweinyddol proffesiynol uwch ac is (lefelau 1-2).

| Proffil Cymdeithasol | Gors-las | % | Sir Gaerfyrddin % |
|--|----------|------|-------------------|
| <i>Holl bobl 16-74 oed sy'n byw mewn aelwyd</i> | 2997 | 100 | 100 |
| 1: Galwedigaethau Rheoli a Gweinyddol Proffesiynol Uwch | 464 | 15.5 | 13.8 |
| 2: Galwedigaethau Rheoli a Gweinyddol Proffesiynol Is | 673 | 22.5 | 19.9 |
| 3: Galwedigaethau canolradd | 397 | 13.2 | 11.6 |
| 4: Cyflogwyr bach a gweithwyr hunangyflogedig | 296 | 9.9 | 12.6 |
| 5: Galwedigaethau Goruchwylio a Thechnegol Is | 231 | 7.7 | 7.6 |
| 6: Galwedigaethau lled-gyffredin | 448 | 14.9 | 16.7 |
| 7: Galwedigaethau Cyffredin | 405 | 13.5 | 13.0 |
| 8: Erioed wedi gweithio / Di-waith tymor hir | 117 | 3.9 | 4.9 |

Y Ffynhonnell: Cyfrifiad 2011, Swyddfa Ystadegau Gwladol

YR ECONOMI A'R FARCHNAD LAFUR

| Hawlwyr Budd-daliadau | Gors-las | Cyfradd fesul % | Poblogaeth sy'n gweithio yn Sir Gaerfyrddin % |
|--|----------|-----------------|---|
| Budd-dal diweithdra (Lwfans Ceisio Gwaith): Mawrth 2017 | 18 | 0.7 | 1.4 |
| Budd-daliadau analluogrwydd (ESA/hawlwyr BA/LAD) Awst 2016 | 230 | 8.8 | 8.9 |
| Cymhorthdal Incwm: Awst 2016 | 25 | 1.0 | 1.8 |
| Lwfans Byw i'r Anabl: Awst 2016 | 270 | 10.3 | 9.6 |
| Credyd Pensiwn: Awst 2016 (Poblogaeth 65+) | 175 | 18.5 | 17.1 |
| Hawlwyr Pensiwn y Wladwriaeth: Awst 2016 | 1,010 | - | - |

Y Ffynhonnell: System Weinyddol y Ganolfan byd gwaith adran ar gyfer yr Adran Gwaith a Phensiynau

| Statws Economaidd (pobl 16-74 oed) | Gors-las | Gors-las % | Sir Gaerfyrddin % |
|---------------------------------------|----------|------------|-------------------|
| Yn Weithgar yn Economaidd | 1943 | 64.8 | 64.9 |
| Gweithwyr: Rhan-amser | 399 | 13.3 | 13.9 |
| Gweithwyr: Llawn-amser | 1132 | 37.8 | 33.7 |
| Hunangyflogedig | 256 | 8.5 | 11.0 |
| Pobl Ddi-waith | 86 | 2.9 | 3.7 |
| Myfyrwyr Llawn-amser | 70 | 2.3 | 2.5 |
| Heb fod weithgar yn economaidd | 1054 | 35.2 | 35.1 |
| Wedi ymddeol | 585 | 19.5 | 18.1 |
| Myfyriwr | 135 | 4.5 | 4.5 |
| Gofalu am y cartref/teulu | 86 | 2.9 | 3.8 |
| Yn barhaol sâl / anabl | 192 | 6.4 | 6.8 |
| Arall | 56 | 1.9 | 1.9 |

Y Ffynhonnell: Cyfrifiad 2011, Swyddfa Ystadegau Gwladol

MYNEGAI AMDDIFADEDD LLUOSOG CYMRU (MALIC)

Mae MALIC 2014 yn seiliedig ar ddaearyddiaeth fanwl iawn Ardaloedd Cynnyrch Ehangach Haen Is. Mae MALIC 2014 yn cael ei lunio ar sail wyth maes sef Incwm, Cyflogaeth, Iechyd, Addysg, Tai, Mynediad i Wasanaethau, yr Amgylchedd Ffisegol, a Diogelwch Cymunedol. Fe'i cyhoeddir yn ôl Ardal Gynnyrch Ehangach Haen Is ac mae 112 o'r rhain yn Sir Gaerfyrddin.

Yn y MALIC, Safle 1 yw'r safle mwyaf amddifad. Mae **Gors-las 1** cael ei osod yn safle 96 o blith y 112 o Ardaloedd Cynnyrch Ehangach Haen Is (LSOAs) yn Sir Gaerfyrddin ac mae yn safle 1,352 o blith y 1,909 LSOA yng Nghymru. Mae **Gors-las 2** yn safle 90 o ran yr ardaloedd mwyaf amddifad yn Sir Gaerfyrddin ac yn safle 1277 yng Nghymru.

Addysg yw'r maes lle ceir y lefel uchaf o amddifadedd yng **Ngors-las 1**, sef safle 67 yn Sir Gaerfyrddin a safle 1121 yng Nghymru ar gyfer y maes hwn. Yn **Gors-las 2**, maes yr Amgylchedd Ffisegol yw'r un pennaf, sef safle 35 o ran ffigurau Sir Gaerfyrddin a safle 586 o ran ffigurau Cymru.

Gorslas 1 – Drefach Gorslas 2 – Ysgol Maes yr Yrfa

| LSOA | Mynegai Cyffredinol | | Incwm | | Cyflogaeth | | Iechyd | | Addysg | | Mynediad at Wasanaethau | | Diogelwch Cymunedol | | Amgylchedd Ffisegol | | Tai | |
|------------|---------------------|----|-------|----|------------|----|--------|----|--------|----|-------------------------|----|---------------------|-----|---------------------|----|------|----|
| | | | | | | | | | | | | | | | | | | |
| Gors-las 1 | 1352 | 96 | 1139 | 72 | 1236 | 85 | 1067 | 76 | 1121 | 67 | 810 | 71 | 1702 | 90 | 1110 | 68 | 1453 | 88 |
| Gors-las | 1277 | 90 | 1215 | 80 | 931 | 56 | 1302 | 89 | 1059 | 61 | 900 | 76 | 1853 | 103 | 586 | 35 | 1459 | 89 |

Y Ffynhonnell: Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru 2014 (cyhoeddwyd Awst 2016), Llywodraeth Cynulliad Cymru.

Sylwer: LSOAs a restrwyd yn safleoedd 1-112 (Sir Gaerfyrddin), 1-1909 (Cymru).

TORCYFRAITH

| Gors-las | Grŵp Trosedd | | | | | | | | | | | | Cyfanswm Blynyddol | | |
|---|-----------------------------------|------------------------------------|------------------------|---------------------|--|------------------|-----------------------------|---------|-------------------|------|--------------------|----------------------------|--------------------|--|--|
| | Tanau Bwriadol a Difrod Troseddol | Bwrgleriaeth – Busnes a Chymunedol | Bwrgleriaeth – Preswyl | Troseddau Cyffuriau | Troseddau amrywiol yn erbyn cymdeithas | Meddiant o Arfau | Troseddau'r Drefn gyhoeddus | Lladrad | Troseddau Rhywiol | Dwyn | Troseddau cerbydau | Trais yn erbyn yr Unigolyn | | | |
| Blwyddyn Ariannol (1 Ebrill i 31 Mawrth) | | | | | | | | | | | | | | | |
| 2016/2017 | 19 | 5 | 3 | 18 | 2 | 2 | 3 | 0 | 2 | 20 | 5 | 31 | 110 | | |

Y Ffynhonnell: Heddlu Dyfed Powys, Pencadlys, Llangynnwr.

Atodiad E – Pro Forma Ymateb

A fydddech cystal â rhoi eich sylwadau, ar y cynnig ynghylch y ddarpariaeth yn y dyfodol ar gyfer plant cynradd sy'n byw yn nalgylch Gors-las.

Eich sylwadau:

A oes unrhyw faterion eraill y dymunwch dynnu ein sylw atynt?

Ticiwch y blwch os hoffech gael gwybod am gyhoeddi adroddiad ymgynghori a nodwch eich dewis iaith.

Fersiwn Gymraeg

Fersiwn Saesneg

Llofnod _____

Cyfeiriad _____

Y
Dyddiad _____

Printiwch yr
Enw _____
Swydd/Categ
ori yr
ymatebydd:
(e.e. rhiant) _____

Côd Post _____

E-bost _____

Sylwer: oni nodwch yn wahanol, bydd modd i'r cyhoedd weld eich sylwadau fel rhan o gofnodion ffurfiol y broses ymgynghori.

Datgysylltwch y ffurflen hon a'i dychwelyd at: Mr Gareth Morgans, Cyfarwyddwr Addysg a Gwasanaethau Plant, Adeilad 2, Parc Dewi Sant, Heol Ffynnon Job, Caerfyrddin, SA31 3HB neu anfonwch e-bost at aaprma@sirgar.gov.uk heb fod yn hwyrach na 17 Rhagfyr 2017.

Mae'r dudalen hon yn wag yn fwriadol

YR ADRAN ADDYSG A PHLANT

ADRODDIAD YMGYNGHORI

Ar y cynnig i gynyddu'r niferoedd yn

Ysgol Gynradd Gorslas o 110 i 210

Ein Gweledigaeth....Cymuned yw Sir Gaerfyrddin lle mae'r plant yn ddiogel ac yn cael eu meithrin, a lle rhoddir cefnogaeth i ddysgwyr o bob oedran gyflawni eu potensial addysgol llawn

Ionawr 2018

Gareth Morgans

Cyfarwyddwr Addysg a Gwasanaethau Plant



EICH CYNGOR arleinamdani
www.sirgar.llyw.cymru

YOUR COUNCIL doitonline
www.carmarthenshire.gov.wales

Adain Gwasanaethau Moderneiddio

Simon Davies, Rheolwr Gwasanaethau Moderneiddio

Cynnwys

| Rhif | Testun | Tudalen |
|------|--|---------|
| 1. | Crynodeb Gweithredol | 4 |
| 2. | Crynodeb o'r sylwadau a ddaeth i law ac ymatebion yr Awdurdod Lleol iddynt | 6 |
| 3. | Sylwadau Estyn ar y Cynnig | 9 |
| 3.1 | Ymateb yr Awdurdod Lleol i sylwadau Estyn | 12 |
| 4. | Ymgynghori â'r Disgyblion | 15 |

1. Crynodeb Gweithredol

Y Cyfnod Ymgynghori

Ar y 6^{ed} Tachwedd 2017 cyhoeddodd Cyngor Sir Caerfyrddin gynigion i newid y ddarpariaeth ysgol gynradd yng nghymuned Gorslas. Cynnig y Cyngor Sir yw:

- cynyddu'r niferoedd yn Ysgol Gynradd Gorslas o 110 i 210 o 1^{af} Medi 2019 pan fydd yr ysgol yn symud i'r adeilad newydd.

Cychwynnodd y cyfnod ymgynghori ar 6^{ed} Tachwedd 2017 yn unol â'r cynigion a gyhoeddwyd a daeth i ben ar 17^{eg} Rhagfyr 2017. Daeth 5 o sylwadau i law i gyd (heb gynnwys yr ymateb gan Estyn a'r ymgynghori â disgyblion) mewn ymateb i'r ymgynghoriad ffurfiol.

Rhaid nodi, o'r 5 set o sylwadau a ddaeth i law, fod 4 wedi cyrraedd cyn diwedd y cyfnod ymgynghori tra daeth 1 law ar ôl diwedd y cyfnod ymgynghori. Fodd bynnag, mae'r ymatebion i gyd wedi'u cynnwys at ddibenion yr adroddiad hwn.

Sylwadau a Ddaeth i Law

Y cynnig i gynyddu'r niferoedd yn Ysgol Gynradd Gorslas o 110 i 210 yw'r weithdrefn statudol ffurfiol y mae'n rhaid ymgymryd â hi a'i chwblhau er mwyn cynyddu nifer y lleoedd cyfrwng Cymraeg sydd ar gael yn Ysgol Gynradd Gorslas yn gyfreithiol, a rhaid cynnal y broses waeth beth fo'r dull gweithredu. Fel rhan o'r cynllun ehangach i ddarparu rhagor o leoedd, bwriad yr Awdurdod Lleol yw darparu adeilad ysgol newydd a fydd hefyd yn darparu lle i feithrinfa a fydd yn cael ei darparu gan gorff allanol.

Tra mae'r ddogfen ymgynghori'n canolbwyntio'n bennaf ar y cynnig ffurfiol i gynyddu'r niferoedd yn Ysgol Gynradd Gorslas o 110 i 210, derbyniwyd sylwadau hefyd am elfennau eraill o'r cynllun ehangach. I sicrhau bod yr adroddiad yn un cyflawn, mae'r sylwadau hynny hefyd wedi cael eu cynnwys yma ac mae'r themâu o blith yr holl sylwadau a ddaeth i law fel a ganlyn:

- Diogelu Swyddi;
- Cynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg;
- Capasiti;
- Colli Man Gwyrdd; a
- Gwasanaeth Nyrsys Ysgol.

Mae Cyngor Sir Caerfyrddin yn cydnabod bod yna bryderon mewn perthynas â'r cynllun ehangach, yn arbennig i leoliad yr adeilad ysgol newydd arfaethedig a'r goblygiadau y gall darparu lle ar gyfer meithrinfa allanol achosi. Mae'r materion hyn yn cael sylw ar wahân i'r cynnig hwn.

Cafwyd sylwadau gan y canlynol:

- NASUWT
- Comisiynydd y Gymraeg
- Cyngor Cymuned Gorslas
- Iechyd Cyhoeddus Plant – Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda

Daeth un sylw dienw i law hefyd.

Ceir crynodeb llawn o'r holl sylwadau a gafwyd mewn ymateb i'r ddogfen ymgynghori ynghyd ag ymateb swyddogion proffesiynol y Cyngor Sir yn adran 2 ar y dudalen nesaf.

Y Camau Nesaf

Caiff yr Adroddiad ar yr Ymgynghoriad ei gyflwyno i'r Pwyllgor Craffu Addysg a Phlant am ei sylwadau a'i argymhelliad ac, yn y pen draw, caiff ei gyflwyno i'r Bwrdd Gweithredol iddo ef benderfynu pa un i frw ymlaen â'r cynnig a chyhoeddi hysbysiad statudol ai peidio. Pe bai'r Bwrdd Gweithredol yn penderfynu bwrw ymlaen i'r cam nesaf, caiff Hysbysiad Statudol ei gyhoeddi yn ystod Tymor y Gwanwyn 2018.

2. Crynodeb o'r Sylwadau a ddaeth i law ac Ymateb yr Awdurdod Lleol

| Pwynt Rhif | Pwynt a Godwyd | Ymateb yr Awdurdod Lleol |
|------------|--|---|
| 1. | <p><u>Diogelu swydd</u></p> <p>Disgwylir y bydd sylw'n cael ei roi i ddiogelu swyddi'r staff.</p> | <p>Mae gan yr Awdurdod bolisiâu a gweithdrefnau staff mewn perthynas ag ad-drefnu ysgolion a gellir argymhell gweithredu'r rhain os oes angen. Fodd bynnag, y disgwyl yw, os caiff y cynnig hwn ei weithredu, fod potensial ar gyfer cyfleoedd swyddi ychwanegol.</p> |
| 2. | <p><u>Cynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg</u></p> <p>Mae'r cynllun yn dangos uchelgais bositif o ran datblygu addysg cyfrwng Cymraeg yn y sir ac mae'n unol â'r cynllun strategol.</p> | <p>Mae Cyngor Sir Caerfyrddin yn croesawu'r sylwadau sy'n cydnabod bod addysg cyfrwng Cymraeg yn cael ei datblygu yn y sir. Dros yr ychydig flynyddoedd diwethaf mae'r galw am addysg cyfrwng Cymraeg yn nalgylch Gorslas wedi cynyddu'n gyson ac mae Cyngor Sir Caerfyrddin yn cydnabod yr angen am fwy o gapasiti er mwyn ateb y galw presennol am addysg cyfrwng Cymraeg a'r galw yn y dyfodol.</p> |
| 3. | <p><u>Capasiti</u></p> <p>Daeth sylwadau i law yn gofyn sut yr oedd y ffigur o 210 wedi'i gyfrifo fel y capasiti arfaethedig, a pha un a oedd hyn wedi'i gyfyngu i ddalgylch Gorslas yn unig. Codwyd cwestiynau hefyd pa un a oedd y colli disgyblion o ardal Cwmgwili i ysgolion eraill agosach wedi'i gymryd i ystyriaeth ac a oedd unrhyw newidiadau'n debygol i'r dalgylch presennol.</p> | <p>Dadansoddwyd amryw o elfennau wrth ystyried y cynnydd yng nghapasiti Ysgol Gynradd Gorslas, sef: data CYBLD (Cyfrifiad Ysgolion Blynnyddol ar Lefel Disgyblion) blynnyddol; nifer y disgyblion a ddisgwylir o aneddiadau a'r amcanestyniadau disgyblion – roedd y rhain wedi'u seilio ar ddalgylch Gorslas. Rhoddwyd ystyriaeth hefyd i'r ffaith fod dosbarth symudol wedi cael ei osod ym mis Medi 2015 a bod angen un arall ar gyfer blwyddyn academaidd 2017/2018, ynghyd ag amcangyfrif ceidwadol i adlewyrchu dylanwad yr adeilad ysgol newydd.</p> |

| | | |
|----|--|---|
| | | <p>Wrth ddadansoddi'r data CYBLD blynyddol, darperir gwybodaeth am faint o ddisgyblion sy'n mynychu pob ysgol o'r dalgylch ei hun, o'r tu allan i'r dalgylch a faint o ddisgyblion sy'n byw mewn ardaloedd dalgylch penodol ond sy'n mynychu ysgolion eraill. Dangosai data CYBLD Ionawr 2017 fod 218 o ddisgyblion yn byw yn nalgylch Gorslas (78 ohonynt yn mynychu Ysgol Gynradd Gorslas a 140 yn mynychu ysgolion eraill). Er ein bod yn derbyn nad yw/na fydd yr holl ddisgyblion sy'n byw yn y dalgylch yn mynychu Ysgol Gynradd Gorslas yn y dyfodol, rhaid ystyried disgyblion sy'n byw yn y dalgylch.</p> <p>Fel rhan o'r cynnig i gynyddu capasiti Ysgol Gynradd Gorslas, y cynnig yw na wneir unrhyw newid i ddalgylch presennol yr ysgol.</p> |
| 4. | <p><u>Colli Man Gwyrdd</u></p> <p>Er bod cefnogaeth i'r cynigion, mae pryderon ynglŷn â cholli man gwyrdd yn sgil datblygu adeilad newydd yr ysgol ym Mharc Gorslas. Caiff yr ardal ei defnyddio'n rheolaidd gan blant ar gyfer gweithgareddau awyr agored amrywiol ac mae hefyd wedi'i lleoli oddi wrth draffig. Er y gallai rhan o dir yr ysgol fod ar agor i'r cyhoedd, byddai'r cynnydd mewn traffig a'r gwaith adeiladu yn newid cymeriad yr ardal. Felly, dylid ystyried troi safle'r ysgol bresennol yn fan gwyrdd sy'n agored i'r cyhoedd, i gymryd lle'r parc presennol.</p> | <p>Mae Cyngor Sir Caerfyrddin yn derbyn bod pryderon ynglŷn â cholli man gwyrdd o ganlyniad i'r bwriad i godi'r adeilad ysgol newydd ar safle Parc Gorslas. Fodd bynnag, rhaid nodi, er y bydd adeilad yr ysgol yn cael ei godi ar ran o'r tir, mai'r bwriad yw darparu ardal chwaraeon aml-ddefnydd a chae chwarae a fydd ar gael at ddefnydd y gymuned, ynghyd â'r defnydd o neuadd yr ysgol, y tu allan i oriau'r ysgol. Y bwriad yw y bydd gallu defnyddio'r cyfleusterau hyn ac ehangu'r cyfleoedd a fydd ar gael i'r gymuned o ganlyniad i'r cyfleusterau yn help i gryfhau'r cysylltiadau cymunedol sydd eisoes yn bodoli yn yr ardal.</p> <p>Er ein bod yn derbyn y gallai'r cynnydd mewn traffig a'r gwaith adeiladu newid cymeriad yr ardal, y gobaith yw y bydd y cyfleusterau ychwanegol a fydd ar gael at ddefnydd y gymuned</p> |

| | | |
|----|---|---|
| | | <p>drwy'r cynllun yn darparu manteision a chyfleoedd pellach i'r gymuned ehangach.</p> <p>O ran safle presennol yr ysgol na fydd yn cael ei ddefnyddio mwyach, bydd Polisi'r Cyngor Sir, a gymeradwywyd ar 12^{fed} Ebrill 2006, mewn perthynas ag adeiladau nad oes eu hangen at ddibenion addysgol, yn weithredol. Yn ei hanfod, mae hwn yn caniatáu i'r gymuned gyflwyno achos i'r cyngor o blaid cadw'r adeilad fel adnodd cymunedol. Os nad oes diddordeb hyfyw o blith y gymuned, bydd y safle'n cael ei gynnig i'r farchnad.</p> |
| 5. | <p><u>Gwasanaeth Nyrsys Ysgol</u></p> <p>Yr unig effaith a gaiff hyn ar y Gwasanaeth Nyrsys Ysgol yw cynnydd posibl yn llwyth achosion y Nyrsys Ysgol a neilltuir i'r ysgol dan sylw. Caiff y niferoedd yn llwyth achosion Nyrsys Ysgol eu monitro'n rheolaidd gan yr Uwch Nyrs/Rheolwr Sicrhau Ansawdd y gwasanaeth Nyrsys Ysgol a chânt eu rheoli drwy waith cynllunio'r gweithlu.</p> | <p>Mae Cyngor Sir Caerfyrddin yn derbyn y gallai'r cynnydd mewn capasiti effeithio ar y niferoedd yn llwyth achosion y Nyrsys Ysgol a neilltuir i'r ysgol. Fodd bynnag, maent yn cytuno bod modd monitro unrhyw effaith a'i rheoli drwy gynllunio'r gweithlu a thrwy gyfathrebu rhwng sefydliadau.</p> |

3. Sylwadau Estyn ar y Cynnig

Ymateb Estyn i'r cynnig i ehangu Ysgol Gorslas Sir Gaerfyrddin,

Paratowyd yr adroddiad hwn gan Arolygwyr Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru.

O dan delerau Deddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013 a'i Chod cysylltiedig, mae'n ofynnol i gynigwyr anfon dogfennau ymgynghori i Estyn. Fodd bynnag, nid yw Estyn yn gorff y mae'n ofynnol iddo weithredu yn unol â'r Cod ac nid yw'r Ddeddf yn gosod unrhyw ofynion statudol ar Estyn o ran materion trefniadaeth ysgolion. Felly, fel corff yr ymgynghorir ag ef, bydd Estyn yn rhoi eu barn ar rinweddau cyffredinol cynigion trefniadaeth ysgolion yn unig.

Mae Estyn wedi ystyried yr agweddau addysgol ar y cynnig ac mae wedi llunio'r ymateb canlynol i'r wybodaeth a ddarparwyd gan y cynigiwr a gwybodaeth ychwanegol arall fel data gan Lywodraeth Cymru a barn y Consortia Rhanbarthol sy'n cyflwyno gwasanaethau gwella ysgolion i'r ysgolion yn y cynnig.

Cyflwyniad

Mae'r cynnig ymgynghorol hwn gan Gyngor Sir Gaerfyrddin

Mae'r ymgynghoriad i gynyddu capasiti disgyblion yn Ysgol Gorslas o 110 i 210 o 6 Tachwedd 2017 hyd at 17 Rhagfyr 2017.

Crynodeb/Casgliad

Mae'r cynnig yn nodi yn glir rhesymau'r awdurdod lleol dros gynyddu capasiti Ysgol Gorslas yn glir ac yn ymateb i'r galw cynyddol am addysg cyfrwng Gymraeg ym mhentref Gorslas a'r cyffinniau. Mae'n cymryd i ystyriaeth y cynnydd yn niferoedd y disgyblion sydd yn gwneud cais i fynychu'r ysgol. Mae'r ymgynghoriad yn nodi'r ysgolion Cymunedol o fewn y dalgylch y gallai'r cynnig hwn effeithio arnynt. Mae'r awdurdod yn nodi glir bod mwy o blant yn Ysgol Gorslas na'r lleoedd sydd ar gael a hynny ers nifer o flynyddoedd. Serch hynny, mae'n ymddangos fod nifer o leoedd gwag yn yr ysgolion gynradd Cymunedol Cymraeg y dalgylch. Ym marn Estyn, mae'r cynnig yn debygol o leiaf gynnal y ddarpariaeth a'r safonau ar gyfer disgyblion ardal Gorslas.

Disgrifiad a manteision

Mae'r ymgynghoriad yn rhoi rhesymwaith clir am y manteision ac anfanteision disgwylidig ar gyfer Ysgol Gorslas.

Mae'r cynnig yn amlinellu'n glir y cynlluniau i adeiladu adeilad newydd ar dir sydd o gwmpas 0.1 milltir o safle presennol yr ysgol. Mae'r awdurdod lleol yn honni bod cyflwr yr adeilad presennol wedi dirywio ac mewn cyflwr gwael ac nid oes digon o dir ar safle'r ysgol i ychwanegu at y ddau adeilad symudol syn bodoli eisoes ar dir yr ysgol.

Mae'n ymddangos bod y Cyngor wedi trafod amryw o fodolau perthnasol fel rhan o'u hamcanion strategol yn eu rhaglen moderneiddio addysg. Mae'n cymryd i ystyriaeth yr effaith negyddol gaiff adeilad symudol arall ar dir yr ysgol ar allu'r ysgol i ddarparu addysg y cyfnod sylfaen yn llawn. Mae'n ymddangos bod y cynnig i adeiladu ysgol newydd yn sicrhau mwy o le i wella amgylcheddau dysgu i blant. Mae'r cynnig yn cymryd ystyriaeth rhesymol o'r problemau parcio sy'n bodoli eisioes. Wrth adeiladu ysgol newydd ar safle gwahanol, mae'n ymddangos bydd y trefniadau yn lleihau ymyrraeth bosib ar ddisgyblion, athrawon a rhieni ynghyd â pharhau â'r cwricwlwm ar safle presennol yr ysgol yn ystod cyfnod adeiladu.

Mae'r cynigiwr yn rhestru'r ysgolion a all gael ei heffeithio gan y cynnig ac yn nodi bod oddeutu 140 o ddisgyblion sy'n byw yn nalgylch Gorslas yn mynychu ysgolion eraill ar hyn o bryd. Nid oes digon o wybodaeth yn y cynnig i'r effaith posibl ar yr ysgolion hynny.

Mae'r cynnig yn annhebygol o effeithio'n ormodol ar drefniadau teithio presennol ar wahân i'r posibilrwydd y bydd mwy o ddisgyblion yn mynychu'r ysgol.

Mae'n ymddangos bod y cynnig wedi cymryd ystyriaeth rhesymol i'r effaith ar y gymuned leol. Mae Estyn o'r farn bod yr ymgynghoriad hwn rhoi mwy o gyfleoedd i'r gymuned ddefnyddio'r cyfleusterau ar gyfer nifer o weithgareddau a fyddai'n cryfhau'r elfen gymunedol sy'n bodoli eisoes. Mae'n ymddangos bydd yr adeilad newydd yn gwella'r amgylchedd ddysgu ar gyfer holl ddisgyblion yr ysgol ynghyd â gwella mynediad i ddisgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol.

Agweddau addysgol ar y cynnig

Mae'r awdurdod lleol wedi darparu dadansoddiad priodol o berfformiad presennol yr ysgolion. Mae'n nodi bod yr ysgol yng ngrwp 1 safonau ac yng nghategori melyn sy'n dangos bod Ysgol Gorslas yn ysgol effeithiol sydd eisoes yn gwneud yn dda ac yn gwybod pa feysydd sydd angen eu gwella. Mae'r awdurdod wedi cynnwys canfyddiadau diweddar arolygiad Estyn yn y cynnig.

Nid yw'r ymgynghoriad yn cynnwys effaith y cynnig ar ansawdd deilliannau, darpariaeth ac arweinyddiaeth a rheolaeth yn ddigon clir ar wahân i nodi byddai'r cynnig yn 'rhoi cyfle i bob disgybl a addysgir ar hyn o bryd elwa ar amgylchedd addysgol gwell.' Bydd hyn yn hwyluso gwelliant pellach o ran y safonau, y ddarpariaeth a'r arweinyddiaeth dda sy'n bodoli eisioes'.

Nid yw'r cynnig wedi cymryd i ystyriaeth yn ddigon cadarn yr effaith ar ddarpariaeth yn ysgolion eraill y dalgyllch. Mae'n ymddangos na fydd y cynnig yn cael effaith ar y ddarpariaeth i ddysgwyr ag anghenion dysgu ychwanegol nac yn effeithio'n negyddol ar ddarpariaeth yr Eglwys yng Nghymru.

3.1 Ymateb yr Awdurdod Lleol i Sylwadau Estyn

Effaith ar ysgolion eraill

Mae'r awdurdod yn nodi glir bod mwy o blant yn Ysgol Gorslas na'r lleoedd sydd ar gael a hynny ers nifer o flynyddoedd. Serch hynny, mae'n ymddangos fod nifer o leoedd gwag yn yr ysgolion gynradd Cymunedol Cymraeg y dalgylch.

Er bod mwy o ddisgyblion yn Ysgol Gynradd Gorslas ar hyn o bryd na'r nifer swyddogol, mae Cyngor Sir Caerfyrddin yn derbyn bod rhai lleoedd dros ben mewn ysgolion cyfagos. Mae cynnydd clir yn y galw am addysg cyfrwng Cymraeg yn ardal Gorslas ac er bod 140 o ddisgyblion sy'n byw yn ardal Gorslas yn mynychu ysgolion eraill ar hyn o bryd, mae'r ysgol yn dal uwchlaw'i chapasiti. Tra ydym yn derbyn nad yw/na fydd pob disgybl sy'n byw yn y dalgylch yn mynd i Ysgol Gynradd Gorslas, rhaid ystyried yr holl ddisgyblion yn y dalgylch ac mae capasiti'r ysgol ar hyn o bryd yn annigonol i ddarparu ar eu cyfer.

Mae lleoedd i ddisgyblion yn holl ysgolion y sir yn cael eu monitro ac mae materion yn ymwneud â lleoedd dros ben a gormod o ddisgyblion yn cael eu hadolygu'n rheolaidd. Lle mae rhaid, cymerir camau priodol a strategol fel a phan y mae hynny'n angenrheidiol.

Mae'r cynigiwr yn rhestru'r ysgolion a all gael ei heffeithio gan y cynnig ac yn nodi bod oddeutu 140 o ddisgyblion sy'n byw yn nalgylch Gorslas yn mynychu ysgolion eraill ar hyn o bryd. Nid oes digon o wybodaeth yn y cynnig i'r effaith posibl ar yr ysgolion hynny.

Mae'r cynnig yr ymgynghorwyd yn ei gylch yn cyfeirio at yr angen i gynyddu capasiti Ysgol Gynradd Gorslas o 110 i 210 o leoedd oherwydd y galw cynyddol am leoedd addysg cyfrwng Cymraeg. Er bod Cyngor Sir Caerfyrddin wedi ystyried y gallai'r cynnig effeithio ar ysgolion cyfagos, nid yw'r cynnig yn effeithio'n uniongyrchol ar yr ysgolion hynny drwy'r ad-drefnu hwn ac nid yw hynny'n fwriad gan Gyngor Sir Caerfyrddin.

Mae Cyngor Sir Caerfyrddin yn derbyn y gallai rhai ysgolion cyfagos deimlo effaith anuniongyrchol o ganlyniad i'r cynnig hwn. Mae'n derbyn y gallai disgyblion sy'n byw yn nalgylch Gorslas, sydd ar hyn o bryd yn mynychu ysgolion eraill, fod am fynychu Ysgol Gynradd newydd Gorslas efallai. Fel sy'n wir i bob ysgol gynradd gymunedol yn y sir, bydd derbyn disgyblion i'r ysgol yn cael ei reoli drwy'r broses dderbyn, pe bai'r sefyllfa hon yn codi. Er bod Cyngor Sir Caerfyrddin yn derbyn y gallai rhai ysgolion cyfagos deimlo effaith anuniongyrchol o ganlyniad i'r cynnig hwn, mae'n anodd iawn amcangyfrif y canlyniad a'r effaith y gallai ei chael. Serch hynny, bydd

Cyngor Sir Caerfyrddin yn monitro effaith y cynnig ar ysgolion cyfagos a bydd yn ystyried a oes angen gweithredu'n briodol, fel a phan y bydd rhaid.

Nid yw'r cynnig wedi cymryd i ystyriaeth yn ddigon cadarn yr effaith ar ddarpariaeth yn ysgolion eraill y dalgylch.

Fel y crybwyllwyd yn barod, er bod Cyngor Sir Caerfyrddin yn derbyn y gallai'r cynnig i gynyddu capasiti Ysgol Gynradd Gorslas gael effaith anuniongyrchol ar ysgolion cyfagos, nid yw'r cynnig yn effeithio'n uniongyrchol ar y ddarpariaeth mewn ysgolion eraill drwy'r ad-drefnu hwn ac nid yw hynny'n fwriad gan Gyngor Sir Caerfyrddin. Fodd bynnag, bydd Cyngor Sir Caerfyrddin yn monitro effaith y cynnig ar ysgolion cyfagos a phe bai'r cynnig yn cael unrhyw effaith niweidiol ar y ddarpariaeth, bydd camau priodol yn cael eu hystyried.

Effaith ar ansawdd y deilliannau, y ddarpariaeth, a'r arweinyddiaeth a'r rheoli

Nid yw'r ymgynghoriad yn cynnwys effaith y cynnig ar ansawdd deilliannau, darpariaeth ac arweinyddiaeth a rheolaeth yn ddigon clir ar wahân i nodi byddai'r cynnig yn 'rhoi cyfle i bob disgybl a addysgir ar hyn o bryd elwa ar amgylchedd addysgol gwell.' Bydd hyn yn hwyluso gwelliant pellach o ran y safonau, y ddarpariaeth a'r arweinyddiaeth dda sy'n bodoli eisioes'.

Y disgwyl yw y bydd y cynnig i gynyddu capasiti Ysgol Gynradd Gorslas drwy ddarparu adeilad ysgol newydd yn cael effaith gadarnhaol ar y deilliannau, y ddarpariaeth, a'r arweinyddiaeth a'r rheoli yn yr ysgol.

Yn gyntaf, bydd cynyddu'r capasiti yn golygu bod modd lleoli'r disgyblion a'r staff i gyd mewn un adeilad, yn hytrach na'u bod yn gorfod symud a gweithredu rhwng prif adeilad yr ysgol a chabanau ychwanegol. Bydd hyn yn darparu amgylchedd diogel, saffach a haws ymdopi ag ef i'r disgyblion yn ogystal â'r staff, a bydd yn golygu bod addysgu, dysgu a digwyddiadau ar draws yr ysgol yn gallu digwydd yn fwy effeithlon ac effeithiol.

Bydd darparu mwy o le, y tu mewn a'r tu allan, yn golygu bod modd ehangu'r cwricwlwm a bydd yn darparu cyfleoedd ar gyfer amgylchedd dysgu ehangach a mwy amrywiol i'r disgyblion i gyd, yn arbennig y Cyfnod Sylfaen. Disgwylir i hynny yn ei dro gael effaith gadarnhaol ar ddeilliannau a datblygiad y disgyblion i gyd. Bydd darparu ardal chwaraeon aml-ddefnydd a chae chwarae yn cynnig cyfleoedd cyffrous ar gyfer cwricwlwm addysg gorfforol amrywiol a bydd yn golygu bod modd cynnal yr holl ddigwyddiadau dysgu a chwaraeon mewn un lleoliad. Ar hyn o bryd, cynhelir chwaraeon yr ysgol ym Mharc Gorslas oherwydd y cyfleusterau cyfyngedig ar safle presennol yr ysgol. Bydd darparu'r cyfleusterau hyn yn help felly i reoli digwyddiadau yn yr ysgol. Bydd y neuadd ysgol fawr yn darparu cyfleoedd pellach i gynnal

digwyddiadau ysgol, gan sicrhau bod yr ysgol gyfan yn gallu gweithio gyda'i gilydd ar yr un amser yn effeithlon. Mae'r neuadd hefyd yn creu cyfleoedd i barhau i ddarparu'r cwricwlwm addysg gorfforol etc pan fydd y tywydd yn wael ac nad oes modd cynnal gweithgareddau y tu allan.

Bydd hygyrchedd y cyfleusterau yn sicrhau bod y gymuned yn gallu defnyddio neuadd yr ysgol, yr ardal chwaraeon aml-ddefnydd a'r cae chwarae, sy'n dangos sut y gall yr ysgol a'r gymuned weithio gyda'i gilydd i gryfhau cysylltiadau a chreu cymaint â phosibl o gyfleoedd i bawb. Bydd y cynnydd mewn capasiti a'r adeilad newydd arfaethedig yn darparu cyfleusterau addas i'r gymuned ar gyfer addysgu a dysgu yn yr 21^{ain} ganrif, lle gellir gwella'r ddarpariaeth a'r deilliannau.

Datganiadau gan Estyn yn cefnogi'r cynnig hwn

Mae'r cynnig yn nodi yn glir rhesymau'r awdurdod lleol dros gynyddu capasiti Ysgol Gorslas yn glir ac yn ymateb i'r galw cynyddol am addysg cyfrwng Gymraeg ym mhentref Gorslas a'r cyffinniau.

Ym marn Estyn, mae'r cynnig yn debygol o leiaf gynnal y ddarpariaeth a'r safonau ar gyfer disgyblion ardal Gorslas.

Mae'r ymgynghoriad yn rhoi rhesymwaith clir am y manteision ac anfanteision disgwylidig ar gyfer Ysgol Gorslas.

Mae Estyn o'r farn bod yr ymgynghoriad hwn rhoi mwy o gyfleoedd i'r gymuned ddefnyddio'r cyfleusterau ar gyfer nifer o weithgareddau a fyddai'n cryfhau'r elfen gymunedol sy'n bodoli eisoes.

Mae'n ymddangos bydd yr adeilad newydd yn gwella'r amgylchedd ddysgu ar gyfer holl ddisgyblion yr ysgol ynghyd â gwella mynediad i ddisgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol.

4. Ymgynghori â'r Disgyblion

Ysgol: Ysgol Gynradd Gorslas

Dyddiad: 11^{eg} Rhagfyr 2017

Cynhaliwyd yr ymgynghoriad gan: Mrs Catrin Griffiths – Ymgynghorydd Her

Cyfwelwyd: Cyngor yr Ysgol

Crynodeb

Cafodd Cyngor yr Ysgol ei gyfwrdd ynglŷn â'r cynnig i gynyddu capasiti'r ysgol a'r bwriad i ddarparu adeilad ysgol newydd. Cafwyd trafodaethau buddiol, wedi'u seilio ar y cwestiynau isod:

- Ydych chi wedi gweld y cynlluniau ar gyfer adeilad newydd yr ysgol?
- Ydych chi'n hapus i symud i adeilad newydd, a pham?
- Beth yn eich barn chi fydd yn fanteisiol mewn bod mewn adeilad newydd?
- Fydd hi'n haws i chi ddysgu mewn adeilad newydd?
- Beth am ddisgyblion y Cyfnod Sylfaen? Pa effaith fydd symud yn ei chael ar y disgyblion iau?

Adborth Cyngor yr Ysgol

Cafodd y disgyblion gyfle i edrych ar y cynlluniau ar gyfer yr ysgol newydd a phori drwyddynt, a defnyddiwyd y gair "cyffrous" yn aml i ddisgrifio'r adeilad newydd.

Yn ddieithriad, roedd y disgyblion i gyd yn edrych ymlaen at gael iard ysgol fawr a diogel, gyda digon o le i chwarae amrywiaeth o chwaraeon, yn cynnwys pêl-droed, rygbi a hoci i gyd yr un pryd. Roedd y disgyblion yn edrych ymlaen hefyd at gael iard lai peryglus, yn enwedig pan fydd y tywydd yn wael yn y gaeaf.

Dywedodd y disgyblion fod y neuadd yn bwysig o ran sicrhau lle i chwarae pêl-droed a hoci pan fydd y tywydd yn wael, ac i gynnal cyngherddau a gwasanaethau fel ysgol gyfan.

Roedd y disgyblion yn edrych ymlaen hefyd at gael lle i symud o amgylch yr ysgol. Crybwyllwyd pwysigrwydd coridorau a drysau llydan fel na fydd pobl yn gwrthio ac i deimlo'n saffach wrth gerdded o amgylch. Crybwyllwyd pwysigrwydd dim cabanau hefyd fel bod y disgyblion i gyd yn yr un adeilad.

Roeddent yn hoffi'r ffaith y byddai digon o le i hongian cotiau fel eu bod yn llai tebygol o'u colli neu'u baeddu wrth iddynt gerdded ar y llawr.

Roedd y lleoliad yn y pentref yn bwysig iddynt oherwydd fe ddywedon nhw y bydd yn golygu bod mwy o deuluoedd yn gallu cerdded i'r ysgol ac y bydd angen llai o geir felly. Hefyd, bydd yna faes parcio felly bydd y safle yn un llawer saffach.

Crybwyllwyd y liffet fel ffactor pwysig er mwyn gallu derbyn a helpu plant anabl a phlant sydd wedi cael triniaeth, er mwyn iddynt gyrraedd y llawr uchaf heb fynd i fyny'r staer.

O ran clybiau, dywedodd y disgyblion y bydd llawer mwy o le ar gyfer clybiau ar ôl yr ysgol yn ogystal â chlwb brechwast, felly bydd yn help i hwyluso pethau i rieni. Cyfeiriwyd at yr ardd hefyd a byddai cyfle felly i dyfu llysiau a phlanhigion a'u gwerthu i godi arian i'r ysgol. Roedd y ffaith y byddai llyfrgell yn yr ysgol newydd yn bwysig iawn iddynt fel na fydd yn rhaid iddynt ddarllen yn y coridor.

Dywedwyd y gellid cynnal y carnifal yn yr ysgol newydd, nid yn y babell oer, oherwydd bydd digon o le yn yr ysgol i'r gymuned ymuno â'r disgyblion. Y carnifal yw uchafbwynt y flwyddyn i'r disgyblion.

Bydd yr ardal ar gyfer disgyblion y Cyfnod Sylfaen yn saff a byddant yn gallu cael mwy o gyfleoedd, yn enwedig wrth ddysgu yn yr ardal awyr agored.

Cytunai'r disgyblion yn unfrydol y bydd adeilad mwy, newydd sbon, yn cynnig cyfleoedd ychwanegol, o safon, iddynt yn eu haddysg.

Yr unig sylwadau negyddol oedd teimlo'n drist am adael yr hen adeilad a symud i adeilad newydd ac roedd disgyblion blwyddyn 5 a 6 yn drist na fyddent yn cael y cyfle i gael eu haddysgu yn yr ysgol newydd oherwydd eu hoedran.

CYNGOR SIR CAERFYRDDIN

Neuadd y Sir, Caerfyrddin, SA31 1JP

Hysbysir trwy hyn yn unol ag Adran 42 o Ddeddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013 (y Ddeddf) a'r Côd Trefniadaeth Ysgolion fod Cyngor Sir Caerfyrddin (y Cyngor) ar ôl ymgynghori â'r cyfryw bersonau ag sy'n ofynnol, yn cynnig cynyddu nifer y lleoedd yn Ysgol Gynradd Gorslas, Gorslas, Llanelli, SA14 6RS, o 110 i 210. Caiff yr ysgol ei chynnal gan Gyngor Sir Caerfyrddin. Y bwriad yw rhoi'r cynnig ar waith ar 1 Medi 2019 pan argymhellir symud i mewn i'r adeilad newydd.

Cynhaliodd y Cyngor gyfnod ymgynghori cyn penderfynu cyhoeddi'r cynigion hyn. Mae adroddiad ar yr ymgynghoriad sy'n cynnwys crynodeb o'r materion a godwyd gan ymgynghorion, ymatebion y cynigwyr a barn Estyn ar gael ar www.sirgar.llyw.cymru

Nifer y disgyblion yn yr ysgol ar hyn o bryd yw 122, ac mae gan yr ysgol 110 o leoedd ar gyfer disgyblion a'r nifer o leoedd arfaethedig unwaith y caiff y cynnig ei weithredu fydd 210. Y nifer derbyn ar gyfer disgyblion 4/5 oed yn yr ysgol yn ystod y flwyddyn ysgol gyntaf pan gaiff y cynnig hwn ei weithredu fydd 30.

Ni fydd dalgyrch yr ysgol yn newid.

Cyn pen 28 diwrnod ar ôl dyddiad cyhoeddi'r cynnig hwn, hynny yw erbyn 1 Ebrill 2018, gall unrhyw berson wrthwynebu'r cynnig hwn. Dylid anfon gwrthwynebiadau at Mr Gareth Morgans, Y Cyfarwyddwr Addysg a Gwasanaethau Plant, Cyngor Sir Caerfyrddin, Adeilad 2, Parc Dewi Sant, Heol Ffynnon Job, Caerfyrddin, SA31 3HB neu gellir anfon neges e-bost at aaprma@sirgar.gov.uk

Llofnod: Gareth Morgans
Cyfarwyddwr Addysg a Gwasanaethau Plant
Ar ran Cyngor Sir Caerfyrddin

Dyddiad dig: 5 Mawrth 2018

NODYN ESBONIADOL

(Nid yw'r Nodyn Esboniadol hwn yn rhan o'r Hysbysiad – yn hytrach fe'i cynigir er mwyn eglurder)

1. Bwriad yr Awdurdod yw cynyddu nifer y lleoedd yn Ysgol Gynradd Gorslas o 110 i 210, gyda lle ychwanegol ar gyfer darpariaeth feithrin â 30 o leoedd (allanol).

CARMARTHENSHERE COUNTY COUNCIL

County Hall, Carmarthen, SA31 1JP

Notice is hereby given in accordance with Section 42 of the School Standards and Organisation (Wales) Act 2013 (the Act) and the School Organisation Code that Carmarthenshire County Council (the Council) having consulted such persons as required, propose to increase the capacity of Gorslas Primary School, Gorslas, Llanelli, SA14 6RS from 110 to 210. The school is maintained by Carmarthenshire County Council. It is proposed to implement the proposal on 1 September 2019 when occupation at the new school building is proposed.

The Council undertook a period of consultation before deciding to publish these proposals. A consultation report containing a summary of the issues raised by consultees, the proposer's responses and the views of Estyn is available on www.carmarthenshire.gov.wales

The current number of pupils at the school is 122, the pupil capacity of the school is 110 and the proposed capacity once the proposal is implemented will be 210. The admission number (AN) for pupils aged 4/5 at the school in the first school year in which the proposal has been implemented will be 30.

There will be no change to the school's catchment area.

Within a period of 28 days after the date of publication of this proposal, that is to say by 1 April 2018, any person may object to this proposal. Objections should be sent to Mr Gareth Morgans, Director of Education and Children's Services, Carmarthenshire County Council, Building 2, St David's Park, Job's Well Road, Carmarthen, SA31 3HB or e-mail to DECMEP@carmarthenshire.gov.uk

Signed: Gareth Morgans
Director of Education and Children's Services
For Carmarthenshire County Council

Dated: 5 March 2018

EXPLANATORY NOTE

(This Explanatory Note does not form part of the Notice but is offered by way of clarification)

1. It is the Authority's intention to increase the capacity of Gorslas Primary School from 110 to 210 with additional space for a 30 place (external) nursery.

Mae'r dudalen hon yn wag yn fwriadol

Y BWRDD GWEITHREDOL

4ydd o FEHEFIN 2018

Y RHAGLEN MODERNEIDDIO ADDYSG

Cynnig i ddarparu darpariaeth feithrin yn Ysgol Parc y Tywyn drwy gynyddu yr ystod oedran o 4-11 i 3-11

Yr argymhellion / penderfyniadau allweddol sydd eu hangen:

Argymhellir bod y Bwrdd Gweithredol yn cymeradwyo:

1. Gan ei fod yn fodlon nad oes cynigion cysylltiedig eraill, yr ymgynghorwyd ynghylch y cynnig statudol a'i fod wedi'i gyhoeddi'n unol â'r Côd Trefniadaeth Ysgolion a'i fod yn cynnwys yr holl wybodaeth berthnasol, ac ar ôl ystyried y ddogfen ymgynghori a'r adroddiad ymgynghori, a'r ffaith ni dderbyniwyd unrhyw wrthwynebiadau mewn ymateb i'r Hysbysiad Statudol, argymhell i'r Cyngor fod y cynnig yn cael ei weithredu fel y nodwyd yn yr Hysbysiad Statudol.

Rhesymau:

- Er mwyn cydymffurfio â'r cyfarwyddyd a'r gweithdrefnau statudol ar gyfer ad-drefnu ysgolion.
- Llunio safbwyntiau i'w cyflwyno i'r Cyngor Sir eu hystyried.

Ymgynghorwyd â'r Pwyllgor Craffu Perthnasol: DO – Pwyllgor Craffu Addysg a Phlant 14eg Mai 2018

Penderfynodd y Pwyllgor Craffu Addysg a Phlant yn unfrydol:

1. i argymhell i'r Bwrdd Gweithredol fod y cynnig i ddarparu darpariaeth feithrin yn Ysgol Parc y Tywyn drwy gynyddu yr ystod oedran o 4-11 i 3-11

Angen i'r Bwrdd Gweithredol wneud penderfyniad: OES 4ydd Mehefin 2018

Angen i'r Cyngor wneud penderfyniad: OES 13eg Mehefin 2018

Aelod y Bwrdd Gweithredol sy'n gyfrifol am y Portffolio: Cyng. Glynog Davies (Addysg a Phlant)

| | | |
|---|---|--|
| Y Gyfarwyddiaeth: Addysg a Phlant | Swyddi: | Rhifau Ffôn / Cyfeiriadau E-bost: |
| Enw Pennaeth y Gwasanaeth: Gareth Morgans | Cyfarwyddwr Addysg a Gwasanaethau Plant | 01267 246522 EDGMorgans@sirgar.gov.uk |
| Awdur yr adroddiad: Simon Davies | Rheolwr Gwasanaethau Moderneiddio | 01267 246471 SiDavies@sirgar.gov.uk |

EXECUTIVE SUMMARY

EXECUTIVE BOARD 4TH JUNE 2018

MODERNISING EDUCATION PROGRAMME

Proposal to provide nursery provision at Ysgol Parc y Tywyn by increasing its age range from 4-11 to 3-11


Proposal

- 1) To standardise the **local authority part time nursery provision** in the areas of Burry Port and Pembrey:

Ysgol Parc y Tywyn is a Welsh Medium school with an age range of 4-11.

Outlined in blue below is the catchment area for Ysgol Parc y Tywyn.

The school shares the same catchment as the combined Burry Port Community School and Ysgol Pembrey catchment.




WM – Welsh Medium

EM – English Medium

Burry Port Community School and Ysgol Pembrey are categorised as English Medium language schools. The age range at the schools is 3-11. Nursery provision is being provided at both schools.

This proposal seeks to standardise the nursery education for the area by ensuring that the same level of provision is provided at both the Welsh and English medium schools in the areas of Burry Port and Pembrey.

- 2) To standardise the local authority **part time Welsh Medium nursery provision** in the area:



As can be seen above, Ysgol Parc y Tywyn is surrounded by Welsh Medium schools that provide local authority nursery provision.

This proposal seeks to standardise the nursery provision in Welsh Medium schools by ensuring that the same level of provision is provided at all **Welsh medium schools** in the area, including Burry Port and Pembrey.

The Process

In accordance with Executive Board's instructions, a formal consultation exercise was undertaken from 6th November 2017 to 17th December 2017. The results of the consultation exercise are contained in the attached Consultation Report and were presented to the ECS Scrutiny Committee and then to the Executive Board for consideration and determination on whether or not to publish a Statutory Notice.

On the 26th February 2018, approval was granted by the Executive Board for the publication of the Statutory Notice. The Statutory Notice (attached) was published on 5th March 2018. The notice provided objectors with 28 days in which to forward their objections in writing to the Council which ended on the 1st April 2018. No objections were received in response to the notice.

The full suite of documents (attached) which consists of: Consultation Document, Consultation Report and the Statutory Notice will be presented to the ECS Scrutiny Committee, Executive Board and ultimately will be presented to the County Council for their determination.

This provides the ECS Scrutiny Committee and Executive Board the opportunity to offer comment and a recommendation to the County Council whether or not to implement the proposal as laid out in the Statutory Notice.

Should the County Council agree to implement the proposal, Ysgol Parc y Tywyn will be able to provide nursery provision in the school's new building from 1 September 2018.

The new building is expected to be completed at the beginning of July 2018, when the existing primary aged pupils will transfer over from the old building.

Recommendation

Being satisfied that there are no other related proposals; that the statutory proposal has been consulted upon and published in accordance with the School Organisation Code and contains all the relevant information and, having considered the consultation document and consultation report, and that no objections were received in response to the Statutory Notice, that the Executive Board recommend to the County Council the implementation of the proposal as laid out in the Statutory Notice.

| | |
|----------------------------------|---|
| DETAILED REPORT ATTACHED? | Yes - Consultation Document Consultation Report Statutory Notice |
|----------------------------------|---|

IMPLICATIONS

I confirm that other than those implications which have been agreed with the appropriate Directors / Heads of Service and are referred to in detail below, there are no other implications associated with this report.

Signed: **G. Morgans** Director of Education and Children's Services
S. Davies Modernisation Services Manager

| Policy, Crime & Disorder and Equalities | Legal | Finance | ICT | Risk Management Issues | Staffing Implications | Physical Assets |
|---|------------|------------|-------------|------------------------|-----------------------|-----------------|
| YES | YES | YES | NONE | YES | YES | YES |

1. Policy, Crime & Disorder and Equalities

Developments are consistent with the Authority's Welsh in Education Strategic Plan 2014-2017, Corporate Strategy and the Modernising Education Strategic Outline Programme.

2. Legal

Appropriate consultation will need to be initiated in accordance with the relevant statutory procedures.

3. Finance

To provide part time nursery places in a school setting will have revenue funding implications for the authority in terms of appointing additional teaching and support staff for the nursery. The Revenue implications will be catered from within the existing Local Management of Schools Fair Funding Scheme.

This proposal will have a detrimental effect on employment for local private providers as provision is currently being provided for 3 year olds by local nurseries and childminders.

4. ICT

None

5. Risk Management Issues

The disparity between Welsh and English nursery provision with the catchment of Ysgol Parc y Tywyn.

6. Physical Assets

None

CONSULTATIONS

I confirm that the appropriate consultations have taken in place and the outcomes are as detailed below:

Signed: **G. Morgans** **Director of Education and Children's Services**
 S. Davies **Modernisation Services Manager**

1. Scrutiny Committee – The Scrutiny Committee were formally notified of the Statutory Notice period.

2. Local Member(s) – Local members in the Wards of Pembrey (Cllr. Shirley Matthews and Cllr. Hugh Shepardson) and Burry Port (Cllr. John James and Cllr. Amanda Fox) were formally notified of the Statutory Notice period.

3. Community / Town Council – The Pembrey & Burry Port Town Council were formally notified of the Statutory Notice period.

4. Relevant Partners – All relevant partners were formally notified of the Statutory Notice period.

5. Staff Side Representatives and other Organisations – Staff side representatives and other organisations were formally notified of the Statutory Notice period.

**Section 100D Local Government Act, 1972 – Access to Information
List of Background Papers used in the preparation of this report:**

| Title of Document | File Ref No. / Locations that the papers are available for public inspection |
|---|---|
| Stage 2 Approval – Permission to Notice | http://democracy.carmarthenshire.gov.wales/documents/s18977/Summary.pdf |
| Stage 1 Approval – Permission to Consult | http://democracy.carmarthenshire.gov.wales/documents/s16464/SUMMARY.pdf |
| Carmarthenshire's Welsh in Education Strategic Plan 2014-2017 | http://gov.wales/topics/educationandskills/publications/guidance/welshmededstrat/?lang=en |
| MEP Biennial Review | www.carmarthenshire.gov.uk Executive Board 20 th June 2016 |
| 21 st Century Schools Website | www.21stcenturyschools.org |

Ymgynghoriad ynghylch y cynnig i newid ystod oedran [Ysgol Parc y Tywyn](#)
o 4-11 i 3-11

*Ein Gweledigaeth....Cymuned yw Sir Gaerfyrddin lle mae'r
plant yn ddiogel ac yn cael eu meithrin, a lle rhoddir
cefnogaeth i ddysgwyr o bob oedran gyflawni eu potensial
addysgol llawn*

Tachwedd 6, 2017

Gareth Morgans
Cyfarwyddwr Addysg a Gwasanaethau Plant

Yr Adain Moderneiddio Ysgolion

Simon Davies, Rheolwr Gwasanaethau Moderneiddio

Os oes angen y wybodaeth hon arnoch mewn print bras, mewn Braille, neu ar dâp sain, cysylltwch â'r Adran Addysg a Phlant

E-bost: aaprma@sirgar.gov.uk

Ffôn: 01267 246475

Fel rhan o'i rwymedigaeth statudol i adolygu nifer a mathau'r lleoedd sydd ar gael yn ei ysgolion, mae'r Cyngor Sir wedi mabwysiadu rhaglen eang ei chwmpas a luniwyd i wella adeiladau ysgolion ac i hyrwyddo cyfleoedd dysgu. Mae'r strategaeth yn adlewyrchu'r weledigaeth a'r polisiau a sefydlwyd gan y Cyngor Sir sy'n cwmpasu'r angen i ddarparu gwasanaethau sy'n cyrraedd safonau clir – o ran cost ac ansawdd – a hynny yn y modd mwyaf darbodus ac effeithiol. Yn ein hymgyrch i wella'n barhaus y gwasanaethau sydd ar gael i bob dysgwr, mae'n ofynnol ein bod yn manteisio i'r eithaf ar yr adnoddau cyfyngedig sydd ar gael i'r Cyngor, ac yn parhau i weithio mewn partneriaeth â phawb sydd â chyfraniad i'w wneud i'r broses ddysgu ac i les plant a'u teuluoedd. Bydd angen i ysgolion y dyfodol fod yn ganolbwynt ar gyfer ystod eang o wasanaethau a drefnwyd yn bwrpasol i fodloni anghenion y gymuned mewn modd cydgysylltiedig.

Yn ffodus iawn mae gan Sir Gaerfyrddin lawer o athrawon dawnus iawn, ond mae'r newidiadau parhaus a wneir i'r cwricwlwm yn rhoi pwysau mawr ar eu sgiliau i fodloni galwadau hynod amrywiol pob plentyn. Er mor bwysig yw'r prosesau dysgu a'r sgiliau addysgu, mae'n hanfodol fod gan athrawon wybodaeth drylwyr am bynciau os yw dysgwyr, â'u hamrywiol ddoniau mewn gwahanol feysydd, i ddarganfod eu galluoedd a'u datblygu i'r eithaf.

